# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 438 | Chwefror 2023 | Pris £1


## AGORIAD SIOP GOFFI HYWEL DDA

Mae Christine Richards a'i chwaer wedi symud eu caffi o Stryd Sant Ioan i Ganolfan Genedlaethol Hywel Dda. Buodd aelodau Pwyllgor Cenedlaethol Hywel Dda yn ddigon ffodus i gael rhagflas yno ar Ionawr 13eg, cyn yr agoriad swyddogol ar y dydd Llun canlynol.

Roedd Christine a'i staff wedi paratoi te prynhawn bendigedig i ni a chytunodd pawb ei bod wedi llwyddo i gadw naws yr adeilad hyfryd. Methon ni fwyta'r danteithion i gyd ond roedd hi wedi paratoi bocsys i ni fynd adre a'r ' briwfwyd gweddill'! Diolchodd George Bancroft yn gynnes iawn iddi a dymunodd Elonwy Phillips rhwydd hynt iddi yn ei menter newydd.

Oriau agor yw: dydd Llun a dydd Sadwrn 10 - 2 o'r gloch. dydd Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9 - 4 o'r gloch.



Aelodau'r pwyllgor yn cael rhagflas o'r te prynhawn



Plant Meithrin Hywel Dda yn y caffi

## DIOLCH O GALON ROY

Cawsom gyfle yn ystod noson y Cwis i ddangos ein gwerthfawrogiad i Roy Llewellyn am roi oes o wasanaeth i'r Cardi Bach. Bu Roy yn drysorydd, ffotograffydd a dosbarthwr am flynyddoedd maith, gan gyflawni'r holl ddyletswyddau gyda'i frwdfrydedd arferol. Fe wnaeth weithio mewn harmoni perffaith gyda'i wraig Rhoswen, a gwneud hynny gydag afiaith, bwrlwm ac egni rhyfeddol. Cyflawnodd ddiwrnod da o waith yn enw'r Cardi Bach a diolchwn yn ddiffuant iddo am hynny.

Bu ei gyfraniad i'w bapur bro yn un aruthrol a rhyfeddol - teithiodd filltiroedd maith yn rheolaidd, (cyn bod ebyst, ffonau symudol a'r dechnoleg ddigidol yn bodoli), er mwyn cymryd ffotograffau o ddigwyddiadau amrywiol ar hyd a lled y fro. Treuliodd oriau di-ri hefyd yn dosbarthu'r papur bob mis, yn ogystal â chadw trefn ar y cyfrifon – cofiwn iddo wneud y cyfan hyn o'i wirfodd. Ein braint felly oedd cyflwyno rhodd ariannol iddo, er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad am bopeth wnaeth yn enw'r Cardi Bach. Diolch o galon i ti Roy, da was, da a ffyddlon. Dyma englyn addas i'w gyfarch. *Eurfyl*

Diau Roy heb fawr o dreth – a rannodd,
Cyfranodd yn heleth.
Ddyddiau fu rhoddai'n ddi-feth,
Rhoi i'w bapur ei bopeth.

Wyn Owens



Roy yn derbyn rhodd wrth Eurfyl a swyddogion Y Cardi Bach

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **Cystadleuaeth** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Nansi Evans 01994 448392 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Y llynedd, mi fum i ar wyliau ar ynys Cyprus, a dyna'r eildro i fi brofi'r ddaear yn ysgwyd oddi tanaf. Roeddwn i mewn bwyty ar y pryd, ac fe ddaeth hi'n go amlwg o weld ymateb y trigolion lleol, fod mymryn o bryder yn ystod yr eiliadau hynny, cyn i ryddhad lenwi'r bwyty, pan ddaeth llonyddwch oddi tano.

Mae'n anodd ei ddisgrifio, ond roedd yn deimlad go debyg i sefyll ar fat tra bo rhywun yn tynnu'r naill ochr yn sydyn iawn o dan eich traed.Yn ddiarwybod i fi ar y pryd, mae daeargrynfeydd bychain yn taro Cyrpus yn lled reolaidd, ac roedd yr un penodol hwn fymryn yn fwy nerthol na'r rhai yn y misoedd blaenorol, yn ôl y bobol leol.

Fe deimlais y daeargryn cyntaf pan roeddwn i yn fy arddegau a hynny adre' yn Bow Sreet tra'n darllen yn y gwely. Mymryn o ddirgryniad oedd hwnnw, ond roedd yn ddigon i gwestiynu beth yn union oedd wedi digwydd, a thipyn o drafod sut y gallai hynny fod wedi digwydd yng Nghymru. Fel plentyn, roeddwn i o'r farn fod daeargrynfeydd yn taro mewn gwledydd ymhell bell i ffwrdd.

Rhaid cyfaddef mod i'n teimlo euogrwydd bellach o fod wedi cyffroi yn y fath sefyllfaoedd, heb sylweddoli gwir rym daeargrynfeydd, a'r difrod a'r dioddefaint y mae'n nhw'n eu hachosi.

Fe gafodd y daeargrynfeydd yn Ne ddwyrain Twrci a Gogledd Syria eu teimlo yng Nghyprus yn gynharach y mis hwn hefyd. Ond nid i'r un graddau â'r dinistr sydd wedi lladd degau ar filoedd yn y ddwy wlad honno, a gadael degau ar filoedd yn rhagor yn galaru, ac yn ceisio ymdopi yng nghanol yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel 'uffern ar y ddaear.'

Ac mae'r tywydd rhewllllyd yn fygythiad arall i fywyd, wrth i bobl chwilio am gynhesrwydd a bwyd yng nghanol y tywydd eithafol, a hwythau heb gartref sefydlog.

Mae'n dorcalonnus clywed hefyd fod y drychineb hon wedi taro teuluoedd sydd wedi ymgarterfu yn Sir Gaerfyrddin, gydag un teulu sy'n hanu o Syria wedi colli chwe pherthynas, yn blant ac oedolion. Mae'n amhosibl amgyffred y fath ddioddefaint.

Mae'n union flwyddyn ers i luoedd Rwsia ddechrau ymosod ar Wcráin, a dim arwyddion fod y rhyfel erchyll hwnnw yn tynnu tua'r terfyn. Y natur ddynol sy'n gyfrifol am y gwrthdaro yno fel sawl un arall yn y byd. Ac weithiau, mae'n rhwydd anghofio fod natur ei hun yn medru bod yn gwbl ddi-drugaredd hefyd.

Doedd dim arwyddion fod y daeargrynfeydd hyn ar fin taro, sydd eto'n brawf fod grym natur ar ei waethaf yn gwbwl filain. A does dim modd brwydro yn ei erbyn.

Ond yng nghanol hynny, mae'r natur ddynol yn profi dro ar ôl tro fod daioni, haelioni a charedigrwydd yn rhinwedd hanfodol yn y byd creulon hwn. Ac mae angen pob cefnogaeth ar ddioddefwyr y daeargrynfeydd a phobl Wcráin ar ddechrau 2023.

## GOHEBWYR LLEOL


| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@googlemail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |


# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Gareth Ioan*

### Gwaith y Nadolig

Rydw i'n llunio hyn o lith rhwng Dydd Nadolig a Chalan Ionawr – a chithau yn ei ddarllen tua diwedd Chwefror, mae'n siŵr. I rai ohonoch, bydd cyfnod y Nadolig a'i hwyl a'i hamdden yn ddim ond atgof ac wedi hen fynd heibio gyda llif amser. I eraill, fodd bynnag, newydd orffen y mae.

Mae ein syniadau ni ynghylch beth yn union yw hyd Gŵyl y Nadolig yn amrywio'n fawr – ac wedi amrywio drwy'r oesau. Deil rhai ei fod yn cychwyn gyda thymor yr Adfent, bedwar Sul cyn Dydd Nadolig. Yn y Canol Oesoedd roedd llawer yn cyfrif bod tymor y Nadolig wedi cychwyn gyda dathlu Calan Gaeaf a Dydd yr Holl Saint ar 1af Tachwedd. Yn ein hoes fasnachol ni mae rhai masnachwyr yn cychwyn ein hudo i wario'n harian ym mis Medi!

Mae union ddiwrnod dathlu'r Nadolig yn medru amrywio hefyd. Dydd Nadolig (25ain Rhagfyr), dydd cyntaf yr ŵyl, yw dyddiad traddodiadol y dathlu mawr yng ngwledydd Prydain erbyn hyn, wrth gwrs. Ond mewn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill ar Noswyl Nadolig mae'n nhw'n cael eu gwledd deuluol a chyfnewid anrhegion. Dydd i hamddena a dilyn diddordebau personol yw Dydd Nadolig drannoeth.

Yn Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn cyfeirir at Dymor y Nadolig, yn aml, fel 'Y Gwyliau'. Cysgod o'n hanes fel gwlad Gatholig yw hynny, gan fod yna ddyddiau gŵyl eraill i'w dathlu gydol y cyfnod, wrth gwrs – Gŵyl San Steffan, Gŵyl Ioan yr Efengylydd, Gŵyl y Gwirioniaid (*Holy Innocents*) ac yn y blaen.

Nid yw'r dathliadau mewn gwledydd sy'n dilyn trefn yr Eglwys Uniongred yn dod i uchafbwynt tan Gŵyl yr Ystwyll (*Epiphany*) ar y 6ed Ionawr, ar ôl nodi 12 dydd cyflawn tymor y Nadolig. Dyma'r dydd, yn draddodiadol, a gysylltir â dyfodiad y seryddion i Fethlehem. Mae rhai ohonom yn parhau i nodi arwyddocâd y dyddiad hwnnw trwy ddal mai dyna pryd y dylid pacio'r addurniadau yn ôl yn eu bocsys.

Ond ai dyna ddiwedd y daith Nadoligaidd? Nid o reidrwydd. Mae dilynwyr y Plygeiniau yn medru parhau i ganu eu carolau hynafol drwy gydol Ionawr on'd ydyn nhw? Pam hynny? Wel, yn ôl calendr yr Eglwys Anglicanaidd a Rhufeinig dydy'r Nadolig ddim yn dod i ben yn swyddogol tan Ŵyl Fair y Canhwyllau (*Candlemass*) ar 2il Chwefror. Felly, dydy darllen am y Nadolig yng nghanol Chwefror ddim mor ddwl â hynny wedi'r cwbl!

Os yw dathliadau Tymor y Nadolig yn amrywio o le i le ac o gyfnod i gyfnod ac o draddodiad i draddodiad, mae neges y Nadolig yn parhau gydol y flwyddyn, wrth gwrs - sef bod Iesu wedi dod i'r byd i ddangos i ni wir gymeriad Duw. Dangosodd i ni fod Duw yn un cariadus, maddeugar, cyfiawn a chreadigol, gan ein hannog i'w addoli a'i anrhydeddu ac efelychu'r gwerthoedd hynny yn ein hymwneud â'n gilydd. Fel y dywed Mererid Hopwood yn ei cherdd boblogaidd 'Gwaith y Nadolig':

> Mae 'na alw am gast drama'r geni
> drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,
> am fod gwaith y Nadolig yn anodd –
> yn ormod o waith i un dydd.

# Colofn *John Arfon*

**Cydymdeimlo**

Yn anffortunus yn ystod y mis diwethaf daeth cymylau duon i lawer roeddwn yn gyfarwydd â hwy, a gallaf ond mynegi fy nghydymdeimlad dwysaf â'r teuloedd oll. Ar ddechrau'r mis, collais gyfaill annwyl sef Geraint Griffiths (Griffo Welsh). Ef a'm croesawodd ar ddiwrnod fy nghyfweliad yn Ysgol Ramadeg Hendygwyn 60 blynedd yn ôl a buom yn ffrindiau mawr ers hynny. Roeddem yn arfer chwarae golff yn rheolaidd a gyda diddordeb mawr mewn datrys croeseiriau, a bu Ruby a minnau ar lawer o wyliau gydag ef a'i wraig Ray (a fu gymaint o gymorth iddo) sawl gwaith. Ers i'r ddau ohonom ymddeol roeddem mewn cysylltiad â'n gilydd ar y ffôn bron pob dydd. Ffrind a chyfaill da oedd Geraint a byddaf yn ei golli yn fawr iawn. Hedd i'w lwch.

Yn ystod Ionawr hefyd bu farw Sammy Thomas, Brynderwen, Llanboidy. Deuthum i'w adnabod pan fyddwn yn galw yno i gasglu aelodaeth y Cardi Bach am flynyddoedd a roedd bob amser yn groesawgar a charedig. Roedd yn adnabyddus drwy'r holl ardal a bydd colled mawr ar ei ôl.

Hefyd bu farw Anita Thomas (gynt o Landdewi Efelffre) yng nghartref Waungron. Roedd yn chwaer i Eira Parry a oedd yn ffrind da i Ruby pan oeddynt yn y Cartref gyda'u gilydd.

Syfrdanwyd yr holl ardal yn ddiweddar ar glywed fod Gemma Harries o Bontargothi wedi marw yn frawychus o sydyn yn 31 oed, yn nhŷ ei chariad a'i ffrind annwyl, Joseff Edwards. Cydymdeimlad dwysaf iddo ac i'r teuluoedd oll yn eu hiraeth a'u galar, a chan obeithio y bydd yr atgofion melys yn lleddfu'r boen ymhen amser.

## I'ch Diddori

**A(1)** Atebion Croesair y Nadolig.

Ar Draws
2. Pab, 3. Bwyell, 5 a 23. Nadolig Llawen, 7. Negesau, 14. Crymanu, 18. Fyny, 19,21,15 i lawr, 10 i lawr a 12. Gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn, 20. Magwrfa, 22. Unwaith.

I Lawr
1. Tan y bore, 3. Bwa, 4. Lloi, 5. Non, 6. Gau, 8. Gwely, 9. Santa, 11. Tŷ, 13. Cyfle, 14. Cymry, 16. Ugain, 17. Helfa.

**A(2)** Atebion y Croesair Diemwnt

Ar Draws.
2. Top, 3. Haf, 5. Her, 6. Cae, 8. Perarogli, 9. Môn, 10. Llaw, 11. Pen, 12. Byd.

I lawr
1. Cof, 2. Taran, 3. Herod, 4. Pagan, 5. Hem, 6. Colled, 7. Elw, 11. Pys.

**A (3)** Wedi croesi allan yr holl enwau a roddwyd yn y grid dylech gael y llythrennau **S, I, O, N, C, O, R, N** mewn trefn heb eu croesi allan. Mae hyn yn rhoi'r ateb ichwi sef Sion Corn.

**B(1)** Ateb y chwilrif mawr

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 11 | 3 | 12 | 7 | 8 | 9 | 6 | 4 | 2 | 10 | 5 |
| 4 | 2 | 10 | 7 | 5 | 12 | 3 | 1 | 9 | 8 | 11 | 6 |
| 6 | 5 | 9 | 8 | 2 | 4 | 10 | 11 | 7 | 12 | 1 | 3 |
| 5 | 10 | 8 | 11 | 9 | 3 | 2 | 4 | 1 | 6 | 12 | 7 |
| 7 | 1 | 6 | 2 | 12 | 10 | 8 | 5 | 11 | 3 | 4 | 9 |
| 9 | 12 | 4 | 3 | 6 | 1 | 11 | 7 | 5 | 10 | 2 | 8 |
| 10 | 9 | 2 | 6 | 11 | 7 | 4 | 8 | 3 | 1 | 5 | 12 |
| 8 | 7 | 1 | 4 | 3 | 2 | 5 | 12 | 6 | 11 | 9 | 10 |
| 11 | 3 | 12 | 5 | 1 | 9 | 6 | 10 | 2 | 7 | 8 | 4 |
| 2 | 6 | 11 | 9 | 10 | 5 | 12 | 3 | 8 | 4 | 7 | 1 |
| 3 | 8 | 7 | 10 | 4 | 11 | 1 | 9 | 12 | 5 | 6 | 2 |
| 12 | 4 | 5 | 1 | 8 | 6 | 7 | 2 | 10 | 9 | 3 | 11 |

**B(2) Dyma ateb y Chwilrif X**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 2 | 4 | 7 | 3 | 9 | 6 | 1 | 5 | | | | 9 | 3 | 8 | 4 | 6 | 1 | 7 | 5 | 2 |
| 3 | 5 | 1 | 6 | 4 | 8 | 9 | 7 | 2 | | | | 7 | 1 | 2 | 8 | 5 | 9 | 3 | 4 | 6 |
| 9 | 7 | 6 | 2 | 1 | 5 | 8 | 3 | 4 | | | | 6 | 4 | 5 | 3 | 7 | 2 | 8 | 1 | 9 |
| 5 | 4 | 9 | 8 | 2 | 3 | 7 | 6 | 1 | | | | 2 | 6 | 1 | 5 | 3 | 4 | 9 | 7 | 8 |
| 7 | 3 | 2 | 5 | 5 | 1 | 4 | 9 | 8 | | | | 4 | 8 | 7 | 2 | 9 | 6 | 5 | 3 | 1 |
| 6 | 1 | 8 | 9 | 7 | 4 | 2 | 5 | 3 | | | | 3 | 5 | 9 | 1 | 8 | 7 | 6 | 2 | 4 |
| 1 | 6 | 5 | 4 | 9 | 2 | 3 | 8 | 7 | 4 | 5 | 2 | 1 | 9 | 6 | 7 | 4 | 5 | 2 | 8 | 3 |
| 4 | 9 | 3 | 1 | 8 | 7 | 5 | 2 | 6 | 1 | 9 | 3 | 8 | 7 | 4 | 9 | 2 | 3 | 1 | 6 | 5 |
| 2 | 8 | 7 | 3 | 5 | 6 | 1 | 4 | 9 | 8 | 6 | 7 | 5 | 2 | 3 | 6 | 1 | 8 | 4 | 9 | 7 |
| | | | | | | 2 | 6 | 1 | 5 | 3 | 4 | 9 | 8 | 7 | | | | | | |
| | | | | | | 4 | 9 | 8 | 2 | 7 | 6 | 3 | 5 | 1 | | | | | | |
| | | | | | | 7 | 3 | 5 | 9 | 8 | 1 | 6 | 4 | 2 | | | | | | |
| 2 | 6 | 7 | 8 | 5 | 3 | 9 | 1 | 4 | 3 | 2 | 5 | 7 | 6 | 8 | 4 | 2 | 5 | 9 | 3 | 1 |
| 3 | 9 | 5 | 6 | 4 | 1 | 8 | 7 | 2 | 6 | 1 | 9 | 4 | 3 | 5 | 9 | 8 | 1 | 6 | 2 | 7 |
| 8 | 4 | 1 | 2 | 7 | 9 | 6 | 5 | 3 | 7 | 4 | 8 | 2 | 1 | 9 | 7 | 3 | 6 | 4 | 8 | 5 |
| 4 | 8 | 2 | 9 | 3 | 5 | 1 | 6 | 7 | | | | 9 | 5 | 2 | 3 | 4 | 8 | 7 | 1 | 6 |
| 9 | 1 | 6 | 7 | 2 | 4 | 3 | 8 | 5 | | | | 6 | 8 | 1 | 5 | 9 | 7 | 2 | 4 | 3 |
| 7 | 5 | 3 | 1 | 6 | 8 | 4 | 2 | 9 | | | | 3 | 7 | 4 | 1 | 6 | 2 | 8 | 5 | 9 |
| 6 | 3 | 9 | 5 | 1 | 2 | 7 | 4 | 8 | | | | 1 | 2 | 7 | 6 | 5 | 4 | 3 | 9 | 8 |
| 5 | 7 | 8 | 4 | 9 | 6 | 2 | 3 | 1 | | | | 5 | 4 | 3 | 8 | 7 | 9 | 1 | 6 | 2 |
| 1 | 2 | 4 | 3 | 8 | 7 | 5 | 9 | 6 | | | | 8 | 9 | 6 | 2 | 1 | 3 | 5 | 7 | 4 |

**Dyma'r ennillwyr :-**

**Cystadleuaeth A.**
Yn gyntaf ac yn ennill gwobr o £8 oedd John Lewis, Meidrim, gyda'r ail wiobr o £5 yn mynd i Rita James, Pwlltrap, ac yna Huw Davies , Pwlltrap yn drydydd ac yn ennill y llyfrau.

**Cystadleuaeth B (Chwilrifau)**
Yn gyntaf allan o'r het ac yn ennill £ 5 oedd Nesta Rees , Pwlltrap, gyda'r ail wobr o lyfrau yn mynd i Rhian Jones, Efailwen.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir:- Jane Evans, Tegwen James, Blaenwaun;

Olwen Gibbon, Heol Llysonnen; Peter Crowdie, San Cler; Mair Davies, Pwlltrap; Eilyr Thomas, Llandysilio; Dorothy Williams, Efailwen; a Meryl Jones, Talog.

*Diolch i bawb am eu cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd.*

Dyma atebion y Cwrosw a'r Chwilrif Mis y Nadolig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | X | O | O | X | O |
| O | O | X | X | O | X |
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | X | O | O |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 4 | 7 | 1 | 8 | 5 | 6 | 2 | 3 |
| 8 | 5 | 1 | 3 | 2 | 6 | 9 | 7 | 4 |
| 2 | 3 | 6 | 9 | 4 | 7 | 8 | 5 | 1 |
| 5 | 1 | 3 | 6 | 7 | 8 | 2 | 4 | 9 |
| 7 | 9 | 4 | 2 | 5 | 3 | 1 | 6 | 8 |
| 6 | 2 | 8 | 4 | 9 | 1 | 7 | 3 | 5 |
| 3 | 7 | 2 | 5 | 1 | 9 | 4 | 8 | 6 |
| 4 | 6 | 9 | 8 | 3 | 2 | 5 | 1 | 7 |
| 1 | 8 | 5 | 7 | 6 | 4 | 3 | 9 | 2 |


Dyma ddau arall i'ch difyrru

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | X | | | | |
| O | | | | O | |
| | | | | | X |
| | | X | X | | |
| | | | O | | |
| O | X | | | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 8 | | | | 4 | 6 |
| 6 | | | | 3 | | 1 | | |
| | **8** | 1 | 9 | 6 | | | | |
| 1 | | | | 8 | 7 | 2 | | |
| | 5 | 8 | | | | 6 | | 4 |
| | | 6 | 4 | 5 | | | | 7 |
| | | | | 4 | 8 | 3 | 9 | |
| 8 | | 9 | | | | | | 1 |
| 5 | | | 2 | | 3 | | | |

Mae dau bôs arall i'ch difyrru y mis hwn.

**A**. Y cyntaf yw datrys y croesair - Cymerir ch , dd , ff , ng, ac yn y blaen fel un llythyren.




Ar Draws

1. Fe'n cludir mewn rhain, er i'r ddaear fod yn gaëdig. (8)
4. Dawns 34 a 20 hwyrach ! (5)
7. Yn y fan draw. (3)
9. Blodyn Marlene ! (4)
12. Nid llai na hynny yw ! (3)
13. Y dydd ar ôl Calan. (6, 2, 3)
14. Tlws gwerthfawr yn ôl rhan o ddameg. (3)
16. Ffrwyth o bren y da a'r drwg. (4)
17. Ceir hwn i aros pryd. (6)
19. Paradwys sydd i'w gael yn Efrog Newydd. (3)
20. Gradd a gawn wrth beidio bod gartref. (1, 1)
22. Nid oedd Tony ac Aloma eisiau cwmni. (3, 3, 2, 1, 2)
23. Dere heb nodyn i ran o Gymru. (2)
24. Yn y fan hon, o hyd i Dafydd. (3)
26. Heb un arall neu ar ben ei hun. (6)
28. Un o broffwydi'r Hen Destament. (4)
30. Y chwarren sy'n puro'r gwaed. (3)
31. Mae gwynt yr "attar" yn hyfryd iawn. (5, 1, 5)
34. Bu hwn yng ngharchar Rhuthun. (3)
35 Y tywyllaf un. (4)

*parhad ar dudalen 6*

*parhad o dudalen 5 (ar draws)*


36. Bydd dawel inni gael clywed dechrau unawd Sam Tân. (3)
37. A ellir cael triniaeth o ddrama yn y lle hwn ? (5)
38. W! fel cerdd y lluniwyd hwn mewn marmor efallai. (8)

I Lawr

1. Prifysgol Cymru ger y lli. (5, 10)
2. Cyhuddo yn rhannol, er i neb ei ofni. (4)
3. Difrodi yn swnio fel cantores opera. (4)
4. Man i weld anifeiliaid gwylltion yn Ynys Wyth. (2)
5. Defnydd trwsio slimwn. (6)
6 .“…………, byw hefyd fydd ei saint”. (2, 3, 2, 5, 3)
8. Un o Geredigion. (5)
10. Ail-wisgo Liam ym mhrifddinas Periw. (4)
11. Y rhai sydd yn trin a thrafod rheolau iaith. (11)
15. Cymerodd hon 16. (3)
18. Talu’r pwyth yn ôl. (4)
21. Drwgdybio wedi colli canol amlhau. (4)
23. Gwâr a gawn pob yn ail mewn deorfa. (3)
25. Gwaharddiad at afal wedi pydru. (6)
27. Cenadwri ewyllys da yr angylion ! (5)
29. Manuel yn dechrau gwneud pethau yn dameidiau bychain. (4)
32. Celficynau yn colli un o’r dwbl i fod yn wastraffus. (4)
33. Hen raglen deledu pedair awr ar hugain. (1, 3)
36. Rhan o lafur ardal y Caldeaid. (2)

**B.** Yr ail yw datrys y Cyplau

Rhowch y parau o’r llythennau yn y cylchoedd fel bo pob un sy’n mynd trwy y cylch canol yn gwneud gair chwe-llythyren.
Yr allwedd i gwblhau y pôs hwn yn hollol gywir, yw rhoi y pâr o lythrennau yn y cylch canol sydd yn gyffredin i’r cyfan o’r 6 gair chwe- llythyren a fedrwch eu creu.



BW
CY
DW
EL
HE
IL
ND
PE
RA
RE
TY
WR
YN




## Enillwyr Cwis y Cardi Bach



Iola Wyn, y cwis feistres, yng nghwmni’r tîm buddugol sef Merched y Wawr San Cler - Beti-Wyn James, Sally Davies, Rhian White a Eileen Davies Diolch o galon iddynt am roi’r wobr o £50 tuag at ymgyrch cymorth argyfwng Twrci a Syria.

WYN DAVIES a’i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa’r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed
Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a’i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma waith i'ch diddori y mis hwn.
Trist oedd clywed newyddion am Rhoswen Llewellyn yn ddiweddar. Ni fydd un debyg iddi. Cysgwch mewn hedd.
Cofion gorau, *Albie*

Cadwch y geiriau sydd wedi eu tanlinellu

Fi yw ei dad e
Fi yw ei thad hi
Fi yw ei mam nhw
Fi yw ei brawd hi.

Dych chi'n edrych yn rhy ifanc i fod yn dad iddo fe.

Mae tri phlentyn gyda fi
Mae pedair merch gyda fi.
Mae dau fab gyda fi.
Mae pedwar plentyn gyda nhw

Dych chi'n edrych yn rhy ifanc i fod yn fam (dad) i dri o blant

Beth ddwedoch chi?
Beth ddwedodd e?
Beth ddwedodd nhw?
Beth ddwedodd hi?

Rhaid i chi beidio a chymryd sylw ohono i.

Mae rhywun yn trio gwneud ffwl ohonoch chi.
Mae rhywun yn trio tynnu eich coes chi.
Mae rhywun yn trio eich twyllo chi.
Mae rhywun yn trio eich camarwain chi.

Caiff neb wneud ffwl ohoni, dw i'n dweud wrthoch chi.

*Dydd Gŵyl*



**DEWI SANT**



*Hapus*

*"Gwnewch y pethau bychain"*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Ysgubor
Bryncaerau
Llety clyd
Sanclêr
07870
100831

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Hendygwyn

Bu rhaid i ni newid ein trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf 2023 oherwydd bod rhaid i Natalie Jones, ein gwraig wadd, yn rhinwedd ei swydd newydd gyda S4C, fynychu cyfarfod pwysig yng Nghaerdydd. Cytunodd Ann Marie Lewis o Flaen y coed, oedd fod gyda ni ym mis Mawrth, drwco lle gyda Natalie ac fe geson ni brynhawn hyfryd iawn yn ei chwmni. Ceson ni hanes ei gyrfa fel athrawes yn y wlad yma ac yn y Wladfa cyn iddi ddychwelyd i Gymru gyda'i gŵr, Tito. Erbyn hyn mae ganddynt ddau o blant ac mae hi wedi newid ei gyrfa i fod yn gyfieithydd.

Mae hi hefyd yn arbenigo yng ngofal y croen ac yn gwerthu cynnyrch Neil's Yard. Deunydd organig sydd yn yr hylifau ac roedden ni wrth ein bodd yn trafod yr holl nwyddau a ddangosodd i ni ac fe geson ni gyfle i brynu ambell i botyn.

Dyma'r tro cynta i ni gyfarfod yng Nghanolfan Hywel Dda ers i Christine Richards symud ei chaffi yno. Roedd pawb yn gytun bod y lle wedi ei drefnu yn chwaethus iawn ac roedd hi'n gysurus iawn yno. Mae'r caffi ar agor o 9 o'r gloch tan 2 yn y prynhawn bob dydd a hoffen ni fel Merched y Wawr ddymuno'n dda iawn iddi yn ei menter newydd.

Casglwyd yr arian raffl ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a dwedodd Margarette bod Sefydliad y Merched yn awyddus i gydweithio gyda ni mewn menter arall i godi arian i'r Eisteddfod. Cytunodd pawb bod hyn yn syniad da.

Paratodd Gwyneth a Margarette ddisied o de a darn o gacen yn y gegin ar ei newydd wedd a diweddwyd y cyfarfod drwy ganu can y Mudiad.

Dafydd Llywellyn, Comsiynnydd yr Heddlu, fydd ein gŵr gwadd ar Chwefror 21ain am 2.30 yng Nghanolfan Hywel Dda.

## Cangen San Cler

Ar noson rewllyd a llithrig croesawodd Eileen 20 o'r aelodau i westy'r Picton, Llanddowror i'r cinio blynyddol.
Cydymdeimlwyd ag Ann Jones ar farwolaeth ei gŵr Lynn.
Diolchwyd i Eileen, Margaret, Rhian a Iona am helpu gyda'r lluniaeth ar Noson Nadolig Y Gât.

Daeth pawb a rhywbeth i'w gynnwys yn yr hamper, gofynwyd i bob aelod gyfrannu £5 - £2 tuag at gost stondin y Rhanbarth yn Eisteddfod yr Urdd, £3 i goffrau'r gangen. Bu Catherine, merch Lilwen, yn paratoi'r 3 hamper yn hynod o gelfydd.

Offrymwyd y gras gan Iona a mwynhawyd cinio blasus dros ben wedi ei baratoi gan staff y Picton.

Yn dilyn y gwledda, tynnwyd raffl yr hamperi ac fe'u henillwyd gan Ann Thomas, Rhian White, Sharon ac Annalyn.

Aeth Iona ati wedyn i rannu'r aelodau i dîmau a chafwyd tipyn o hwyl yn cwblhau'r tasgiau roedd hi wedi paratoi ar ein cyfer.

Diolch i Rhian Williams am drefnu'r noson, i Iona am baratoi'r adloniant, i Cath am baratoi'r hamperi ac i bawb am eu rhoddion at yr hamperi. Diolch i Eileen am lywyddu.

## Cangen Beca

Cyfarfod yng Nghaffi Beca wnaeth aelodau'r gangen ar brynhawn Iau, Chwefror 9fed. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eryl George. Wedyn buom yn trafod materion y Mudiad.
Bydd llawer digwyddiad diddorol i ddod – gwahoddiad wrth gangen Hwlffordd ym mis Mawrth, Cinio Llywydd y De yn Nantyffin ym mis Ebrill, a Gŵyl Haf ym Machynlleth ym mis Mai. Hyn i gyd yn ogystal â chyfarfodydd misol y gangen. Bydd yn amser prysur a diddorol.
Llongyfarchodd Eryl, Brenda Bowen a fydd yn dathlu penblwydd arbennig iawn yn 90 oed ymhen ryw wythnos.
Pleser wedyn oedd croesawu Janet Harries atom i ddangos sut i baratoi bwydydd blasus dros ben. Dangosodd i ni sut mae mynd ati i baratoi Wellington porc, gateau gafon, gacen tiramasu, a nythod meringues a oedd yn llawn mefus. Anghofio am y ddeiet fydd orau!
Diolchodd Eryl iddi am brynhawn wrth fodd pawb.
Yr aelodau lwcus a wnaeth ennill y danteithion oedd Gloria, Angharad, Gillian a Polly. (ffrind i Janet)
Brenda Bowen wnaeth ennill y raffl misol.

Wedyn cafodd pawb fwynhau paned a chacen oedd wedi cael ei rhoi i ni gan ferch Brenda Bowen i gofio

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

am benblwydd ei mam.

Bydd y cyfarfod nesa ar y 9fed o Fawrth am 1 o'r gloch, pan fyddwn yn dathlu dydd ein nawddsant Dewi. Basned o gawl fydd ar y fwydlen i ddechrau.
Bydd parti o blant Ysgol Beca yn dod draw i roi adloniant i ni.

---

## Cangen Gronw

Casglodd yr aelodau ynghyd yn Llety Cynin ar brynhawn hyfryd ar Ionawr 26ain am 1.30.
Cafwyd sgwrs a phaned (a chacen), cyn mynd ymlaen â'r cyfarfod busnes. Soniodd Val am drefniadau'r daith gerdded nes ymlaen yn y flwyddyn. Gobeithir bydd nifer o'r aelodau yn medru cefnogi mewn rhyw ffordd. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn. Gwnaed trefniadau ar gyfer lluniaeth yn yr Eisteddfod Gylch ar Sadwrn, Mawrth 11eg, a threfniadau am y Bore Coffi ar Fawrth 30ain. Gobeithiwn gael cefnogaeth dda o'r ardal.
Edrychwn ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca ar Chwefror 23ain am 1 o'r gloch a chwmni y Parchedig Eirian Wyn Lewis.

Festri Ramoth, Cwmfelin Mynach

Bore Iau, Mawrth 30ain, 2023
10 - 12 o'r gloch



**Bore Coffi, Raffl**



**a Stondin gacennau**

Agorir gan y Cyng. Jean Lewis

***Elw i'w rannu rhwng Cangen Gronw o Ferched y Wawr ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr***

*Croeso cynnes i bawb*

## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach a diogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb a braf yw cael croesawu aelodau newydd i'n plith eleni eto.

Mae dod yn aelod yn rhwydd - fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn, ar gyfer ei chwblhau a'i danfon yn ôl ataf i.
Os ydych am dalu fesul archeb banc, cysylltwch â mi am ffurflen.

Cynhaliwyd Raffl Fawr y clwb ynghyd â chwis a drefnwyd gan Iola Wyn, yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy yn ddiweddar. Cafwyd noson hyfryd a braf oedd gweld wynebau newydd yno yn ogystal â'r ffyddloniaid. Cytunwyd rhoi elw'r noson at apêl Twrci a Syria ac yn sgil hynny, codwyd dros £300.

Bydd rhestr enillwyr y Raffl Fawr yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel.

*Rhian*




**FLAN SELSIG**

Cynhwysion:-
8 owns o does (shortcrust)
½ pwys o gig selsig neu gig porc

LLENWAD
1 pwys o datws a 1 winwnsin · Halen a phupur
1 owns o fargarin · 8 owns o gig selsig.

DULL:-
Coginiwch y tatws (berwi) mewn dwr gyda ychydig o halen.
Pan fyddant yn barod, cymysgwch yn dda gyda'r margarine.
Rowliwch y toes i leinio plat 8". Torrwch y winwnsin yn fan a'i gymysgu gyda'r cig selsig. Ychwanegwch yr halen a phupur. Cymysgwch yn dda.
Rhowch y gymysgedd dros gynnwys y plat a rhowch y tatws dros y cyfan.
Coginiwch am hanner awr (gwres 190°C / 375°F )

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227





R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# Colofn Garddio *gan W John Davies*

Dyma fi yn eistedd i lawr i ysgrifennu ar y 7fed o'r mis. Mae'n fore tawel, rhewllyd heb bron un awel yn chwythu. Hwn yw'r wythnos gyntaf ail hanner ein gaeaf, sydd wedi bod braidd yn oerach na mae wedi bod ers rhai blynyddoedd, Er hynny, mae pridd yr ardd i weld mewn cyflwr da a iachus ond bydd gofyn cael tipyn o wres cyn dechrau bwdlan a'r priddd mewn unrhyw ffordd. Os oes gennych goed blodeuog, beth am gymryd tocyn neu ddau o bob un a mentro rhoi tro ar eu gwreddio. Gyda cyllell finiog, tociwch i ffwrdd gangen o drwch pensel, yna torrwch y brig cwarter modfedd wrth ben impyn lle bu deilen gynt. Torrwch hwn ar ongl, yna torrwch y gwaelod, y cwbl rhyw drodfedd o hyd o dan impyn ond yn syth ar groes. Yna plennwch yn ddwfn gan adael ond tair modfedd allan o'r ddaear, a na hi. Gyda lwc, hydref nesaf byddant wedi tyfu gwreiddiau, ac yn barod i'w plannu trachefn.

Mae'r wraig wedi dweud wrtha i fod y moron a dyfon llynedd nawr yn dod i ben. Ni wedi bwyta rhain bron pob yn ail dydd trwy gydol y gaeaf, felly does dim lle i rwgnach. Heb os, bydd gwahaniaeth mawr mewn blas y rhai nesaf gawn o'r siopau.

Mae gennyf hanner dwsin o gennin a golwg reit dda arnynt allan yn yr ardd ac rwyf wedi penderfynu tyfu dau ohonynt mlaen eleni, er mwyn cadw'r hâd pan ddaw'r hydref nesaf. Yr wyf yn siwr o fod yn eithaf dwl, ond rhaid cadw ffydd, a creu diddordeb. Yr unig beth a wnaf yw eu cadw i dyfu ac yn fyw, ac yna, yn yr hydref byddant wedi datblygy blodau gwynion anferth. Fel maent yn dechrau gwywo, clymu cwdyn papur brown amdanynt i ddal yr hâd, a dyna'r oll sydd eisiau, neu mae hefyd yn bosib, pan fyddant yn blodeuo, gellir tocio'r blodau i ffwrdd a sishwrn, ac yna mi dyfant nifer dda o gennin bychain. Mae'n hawdd wedyn i blannu rhain mewn potiau bychan a'u cadw mewn cysgod tŷ gwydr cyn ei plannu allan yn gynnar y gwanwyn nesaf.

Wrth blannu hadau mân eleni, da chi triwch y fordd newydd o ddyfrhau. Rwy'n credu fod hyn wir yn un or pethau gorau rwyf wedi ddarganfod dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi agor neu marcio y rhychiau bychan, dyfrhewch eu gwaelod yn unig,yn lle dyfrhau yr holl bâm wedi gorffen. Wedyn, wedi hau yn ofalus, llenwch rhain a pridd sych yn unig. Mae'r hadau yn egino ar ôl hyn llawer cynt a gwell. Rwy'n falch i honni, mai dim ond yn y Cardi Bach a glywsoch am hyn. `

# Cartref Glyn Nest yn serennu



'Peth mawr yw rhoi'r person chi'n caru mwya'n y byd i ofal rhywun arall!' Yr her fawr i gartre preswyl yw i anrhydeddu hynny – a dyna mae Glyn Nest, cartref preswyl Undeb Bedyddwyr Cymru, wedi llwyddo i wneud gan dderbyn adroddiad disglair wrth arolygiaeth gofal Cymru eleni.

Lle i 28 o ddeiliaid sydd yn y cartre preswyl unigryw yma, sy'n swatio ar lethr goediog ar gyrion tre farchnad Castellnewydd Emlyn. Ond er mai cartre'r Bedyddwyr yw Glyn Nest, gyda'r Mudiad Chwiorydd ymhlith eraill yn allweddol wrth ei sefydlu a'i chynnal, nid cartre *ar gyfer* Bedyddwyr yn unig mohono. 'Dilyn egwyddor y Samariad trugarog rydym ni yma – yn croesawu pawb yn ddi-wahân, ac yn trio rhoi'r gofal Cristnogol gorau iddyn nhw.' Dyna mae'r arolygiaeth wedi ei chydnabod yn ei hadroddiad diweddar, sy'n canmol amgylchedd 'groesawgar' a 'chartrefol' y cartre, gan nodi bod 'anghenion... unigol y bobl yn bwysig' i staff 'ymroddgar' y cartre. Beth felly sydd wrth wraidd hyn – mewn oes pan fydd cymaint o newyddion drwg yn dod o gartrefi preswyl?

'O, mae sawl peth weden i,' meddai Jane, rheolwraig y cartre sy wedi gweithio yno ers canol yr 80au. 'Dwi yn meddwl yn amal bod eisiau treulio diwrnod yn sgidie un o'r deiliaid yma er mwyn cael dealltwriaeth go iawn. Mae parchu'r unigolyn yn iawn yn bwysig dros ben i ni, ac mae hynny'n meddwl bod teuluoedd yn rhan bwysig o'r cartre – wrth dderbyn person, rydych chi'n derbyn y teulu hefyd!' Mae hyn yn cael ei

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

adlewyrchu yn y negeseuon o ddiolch sy'n dod i'r cartre o deuluoedd deiliaid, fel hyn o fis Hydref 2022 - 'gair bach i ddiolch o waelod calon am ofalu am Dad mewn modd tyner, caredig a gofalus....rydyn ni'n eich cyfri'n ffrindie'.

Ac mae'r agosatrwydd hynny yn amlwg, nid yn unig wrth siarad gyda staff y Cartre ond hefyd y cyfarwyddwyr (gwirfoddol) sy mor ymroddedig i'r lle. 'Wy'n cofio dod ar draws Charlie, sy wedi marw bellach, yn sgubo dail un diwrnod o Hydref tu fas i'r cartre' meddai Parch Irfon Roberts, un o'r cyfarwyddwyr. 'Pam oedd e'n gwneud 'ny, gofynnais iddo? "Wel, dyma 'nghartre nawr!" medde fe, a byddai'n prynu blodau o'r ganolfan arddio, neu'n dal y bws i Langwili i mofyn presgripiwn i un arall o'r deiliaid.' Wedyn roedd Frida, a fyddai'n trefnu digwyddiadau lu i'r holl drigolion, neu Arwel, cyn-weinidog a gymerai oedfaen yn y capel gerllaw. 'Chi yn mynd yn "attached" iawn iddyn nhw!'

Er bod pob diwrnod yn wahanol, mae rhythm gymunedol hamddenol yn nodweddu bywyd y Cartre. Ar ôl newid o staff y nos i staff y dydd a threfnu'r feddyginiaeth fore, daw'n amser brecwast a dewis i bobl ei gymryd yn y gwely neu i lawr gyda phawb arall. Yna cinio poeth o gynnyrch lleol wedi coginio gartre (caserol cyw iâr, cinio dydd Sul, cig moch mewn saws persli ayyb) a chyfle am gwsg, neu weithgareddau yn y prynhawn; popeth o drin gwallt, gwneud cardiau a chrefft a therapi anifail anwes.

Yna bob mis bydd oedfa gymun dan ofal pwyllgor y tŷ, a gwasanaethau eraill dan ofal y Caplan, Parch. Sian-Elin Thomas. 'Mae'n fraint cael bod mewn perthynas gyda phobl fel hyn, a bod yn glust iddyn nhw! Dwi mewn a mas o'r cartre drwy'r amser, ond mae'r oedfaon yn arbennig achos un peth sy'n gwbl sicr yw bod deiliaid Glyn Nest yn dwlu canu! Ac mae sawl un wedi dweud dros y blynyddoedd gymaint mae'n nhw'n joio pregethu yma hefyd – mae'n nhw'n gynulleidfa sbesial'

Beth oedd i gyfri felly fwya am naws unigryw y lle, pan fod cynnal hynny mor heriol yn ein dydd ni? Ym marn Jane, roedd cyfuniad o bethau ar waith, 'ac efallai yn y bôn mae 'na elfen gartrefol o groeso Cymraeg rydyn ni'n arddel yma.' Ac, noda Irfon, er nad yw pob aelod o staff yn Gristion, mae'n nhw i gyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr ethos berson-ganolog sy'n deillio o seiliau ffydd y Cartre. 'Nid oes yn y Beibl le na chyfiawnhad i'r hyn a alwn heddiw yn *ageism',* meddai, 'Yn hytrach, mae Duw yn addo bod *gyda* ni yn ein henaint, ein cynnal, a'n gwarchod.'

Rheolwr y Cartre yw Mrs Jayne Evans, a chadeirydd y Cwmni Rheoli yw'r Parchedig Irfon Roberts. Gellir cysylltu â'r cartre trwy ffonio 01239 711209 neu trwy ebostio glynnest@btinternet.com

---


"Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan"

**Neuadd Gymunedol Maenclochog**

Cynhelir y **75ain**

## EISTEDDFOD GADEIRIOL

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

Dydd Llun 1 Mai 2023

i ddechrau am 1 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 2 o'r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn dechrau cyn 5 o'r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : ANN MORRIS, Penrhyncoch

BEIRNIAID
Cerdd: GWAWR OWEN, MA BMus LRAM ARCM, Caerdydd
Llefaru a Llên: Y Prifardd TUDUR DYLAN JONES
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
01994 231240
Mynediad: Oedolion - £4.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Mrs Julie Thomas, Maes-y-bryn, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 OEL
Ffôn: 01994 448756
Mrs Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 01437 532431

BYDD LLUNIAETH AR WERTH


Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Winnie James Phillips, Crymych | £20 |
| Sally Davies, Pwlltrap | £10 |
| Eric a Phyllis Hughes, Pwlltrap | £10 |
| Kevin a Wendy Rees, Coynant, Login | £10 |
| Teulu Trefyw, Cwmfelin Mynach | £5 |

*Diolch yn fawr*






Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED


FFÔN:-
01994 240857

# LLANGYNIN

**Graddio**



Llongyfarchiadau mawr i Catherine Griffiths, Fferm Glascoed, Llangynin, ar dderbyn gradd B.Sc. mewn Nyrsio o Brifysgol Abertawe. Bu'r seremoni graddio yn Abertawe ym mis Rhagfyr. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd yn Ysbyty Glangwili.

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd,William, a Hanna Thomas, Drysgol Goch, Llwyndrain, ar eu priodas yn ôl ym mis Awst. Erbyn hyn mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu ar fferm Blaencorse, ble bu tadcu William, sef Gerwyn Griffiths, yn ffermio ar hyd ei oes. Wedi 86 o flynyddoedd ym Mlaencorse, mae Gerwyn bellach wedi ymgartrefu gerllaw yn Nôlydderwen. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartrefi newydd.

**Noson Gawl**

Cynhelir Noson Gawl i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Bryn am 7 o'r gloch nos Iau, Mawrth 2il. Y pris mynediad i oedolion fydd £7 a bydd plant oedran ysgol gynradd yn cael mynediad am ddim. Dewch â basin a llwy gyda chi os gwelwch yn dda. Bydd pice ar y maen a phaned o de neu goffi i ddilyn a chyfle i gymdeithasu a chael ychydig o hwyl yng nghwmni cyfeillion, ac efallai enillwch chi wobr raffl yn y fargen!

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Howard a Jennifer Evans, Plasbach, a'r teulu yn fawr iawn ar farwolaeth tad Howard, sef Alun Evans o Langlydwen.

Cofiwn hefyd am Roy Reynolds, Tymore, a Llinos a'r teulu, Carreglwyd, sydd wedi colli brawd-yng-nghyfraith ac wncwl yn ddiweddar, sef Dr Jeff Jones o Bontargothi. Cofiwn amdanynt i gyd yn eu colled a'u hiraeth.


**Clwb 60**

Cyfarfu'r Clwb 60 yn Neuadd Capel y Bryn brynhawn Iau y 9fed o Chwefror o dan lywyddiaeth Mr. Verian Williams a braf oedd gweld fod Verian ychydig yn well ei iechyd erbyn hyn ac yn bresennol.

Trodd nifer calonogol o'r aelodau allan ar brynhawn oer ond heulog o fis Chwefror a'r gwestai gwadd oedd Mr Gwyn Price Evans o Hendy-gwyn ond yn enedigol o Capel Bangor, Gogledd Ceredigion. Cawsom hanes ei fywyd o'r amser cynnar hyd nawr ac fel y bu iddo symud i Lundain yn y chwe degau i ffeindio gwaith a symud i nifer o ardaloedd cyfagos eto i gyfawni dyletswyddau. Bu hyd yn oed yn gweithio'n Harrods. Yn ôl y daeth i Gymru fach, priodi, a setlo lawr a chael dau o feibion, byw ym Mhentregalar ar bwys Crymych a mynychu Eglwys Llanfyrnach.

Roedd ei gyflwyniad yn fyrlymus, yn llawn hiwmor a bu hyd yn oed yn gweithio ar raglen Pobol y Cwm yn y naw degau hefyd. Prynhawn diddorol iawn a diolch iddo am ei gyflwyniad a'i afiaith naturiol. Mwynhaodd pawb ddished a bisgedi wedi eu paratoi gan Wenfys a Susan cyn troi am adre. Bydd y cyfarfod mis nesa ar y 9ed o Fawrth pan fydd y Cawl i ddathlu gŵyl ein Nawddsant.

**John Lewis, Maes Mebyd, Llangynin**
**(1948 – 2022)**



Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth John Lewis, Maes Mebyd, a fu farw yn dawel yn ysbyty Glangwili ar Dachwedd 30ain yn 74 oed, ar ôl brwydro salwch creulon am flynyddoedd lawer.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

Yn fab hynaf i Ben a Helen Lewis, magwyd John ym mhentref Llansadwrnen, gyda'i ddau frawd a'i ddwy chwaer, Robert, Heather, Janice a Neil. Bu'n ddisgybl yn Ysgol fechan Brook cyn symud ymlaen i Ysgol Gynradd Tremoilet ac yna i Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn-ar-Daf. Yno y cyfarfu ag Ann, ac yno y dechreuodd y garwriaeth rhyngddo a'r ferch ifanc o Langynin.

Wedi cyfnod yn y coleg yng Nghaerwys priododd y ddau yn 1970 ac ymgartrefu yn Llangynin, gyda Paul eu mab, gan fwynhau blynyddoedd hapus iawn ymysg eu teulu a'u ffrindiau.

Ei ddiddordeb pennaf oedd chwaraeon o bob math. Yn ei ieuenctid roedd e'n dipyn o chwaraewr dartiau, yn mwynhau bod yn farshal ar rali ceir Cilwendeg, yn chwarae i Glwb Rygbi Talacharn, yn un o sylfaenwyr ac yn aelod oes o Glwb Rygbi San Clêr, ac fe roddodd flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Clwb hwnnw fel swyddog a thrysorydd. Treuliodd Ann ac yntau lawer penwythnos yn teithio hyd a lled Prydain i gefnogi Rebecca, eu hwyres, mewn cystadlaethau a phencampwriaethau cenedlaethol rhedeg traws gwlad. Roedden nhw wrth eu bodd yn gwneud hynny, wrth gwrs, ac yn hynod o falch o'i llwyddiant.

Yn ei ddull tawel, diymhongar ei hun, bu John yn cyfrannu i fywyd pentref a chymuned Llangynin am yn agos i hanner canrif. Bu'n aelod o'r Cyngor Cymuned a'r Pwyllgor Adloniant a bu'n gefnogol iawn i Gapel y Bryn gan fynychu'r gwasanaethau yno o bryd i'w gilydd pan oedd ei iechyd yn caniatáu iddo. Serch hynny, nid anghofiodd mo'i wreiddiau yn Llansadwrnen, a bu'n aelod gweithgar o Eglwys Sant Sadwrnen ar hyd ei oes ac yn drysorydd yr eglwys honno am lawer blwyddyn.

Yn dilyn llawdriniaeth fawr yn 2005, yn araf iawn y dechreuodd wella, ond serch hynny llwyddodd i roi gofal tyner i Ann yn ystod y cyfnod y bu hithau'n gaeth i'w chadair olwyn. Bu'n ergyd drom iawn iddo pan fu farw Ann yn 2016. Roedd e'n meddwl y byd o'i deulu ac mor falch o weld Paul a Wendy yn dychwelyd i fyw drws nesa iddo ym Min-yr-awel. Diolch iddynt am eu gofal amdano yn ystod ei wendid.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Sadwrnen ddydd Mercher, Rhagfyr 21ain, o dan ofal y Parchedig Justin Arnott, a thalwyd teyrnged hyfryd i John gan y Parchedig Huw George. Daeth tyrfa niferus i dalu'r gymwynas olaf iddo yno yn yr eglwys fechan, o fewn canllath i Sea View, cartref ei blentyndod. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Paul a Wendy, Carys, Rebecca a William a'u teuluoedd hwythau, ar farwolaeth tad, tad-yng -nghyfraith, tadcu, hen dadcu a brawd annwyl iawn. Bydd colled ar ei ôl o fewn cymuned Llangynin ond yn bennaf ymysg ei deulu a oedd yn meddwl cymaint iddo. Gŵr bonheddig a chyfaill triw. Coffa da amdano.

**Diolch**
Dymuna Paul a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad ac am bob caredigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth. Diolch hefyd i bob un ddaeth i'r angladd i ffarwelio â John ac am eu rhoddion caredig er cof amdano.

# BLAENWAUN

Pob dymuniad da am wellad buan i Peter Anthony, Waunfawr sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty.

**Moriah**
Penblwydd hapus i Evanna James, Ffawydd sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar y 23ain Chwefror. Cyfarchion wrth yr aelodau i gyd.

**Trefn yr Oedfaon**
Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar y 5ed Chwefror. Mae nifer o'r aelodau yn edrych ymlaen at Ŵyl Rhinwedd a Moes yng nghaffi Beca bore Sul, 26ain Chwefror am 10 o'r gloch. Nid yn unig at y brecwast a chael cymdeithasu ond at anerchiad Mererid Hopwood. Cofir hefyd bod yna gasgliad tuag at Apêl Leukaemia.

Cynhelir cymun mis Mawrth ar fore Sul, 5ed Mawrth am 10.30yb, yng Nghartref Y Garreg Lwyd, San Clêr. Mae Glyndwr Davies, ein aelod hynaf, wedi ymgartrefi yno ers tipyn yn awr. Croeso cynnes i bob aelod i ymuno. Edrychwn ymlaen yn fawr at gwmni Glyndwr a thrigolion eraill y cartref.

Mawrth 19eg: 2 o'r gloch Annalyn Davies

Ebrill 2il: Sul y Blodau 3 o'r gloch Parchg Gareth Ioan

Ebrill 9fed: Cymun Pasg 1.30 Parchg Gareth Ioan

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# SAN CLER

Penblwydd Hapus i Dewi Griffiths, Lon Hafren, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 92 oed ar Chwefror 16eg.

Penblwydd Hapus i Aled James, Elm House, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Chwefror 11eg. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dad, Mam, Gareth, Kevin, Eirian, Catrin a'r teulu i gyd.

# MEIDRIM

**Henoed**

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol ar Chwefror 7fed, yn Neuadd Ieuenctid Meidrim.

Yn dilyn, cawsom brynhawn o Bingo dan arweiniad Glyn Rees o Sanclêr. Roedd yn brynhawn hwylus a phawb wedi mwynhau.

Ar Fawrth 7fed byddwn yn cael cawl yng Nghaffi Beca i ddathlu Gŵyl Dewi. Yn rhoi raffl. - Jean Howell, Meirion Morris, Eirwen Davies a Lynda Newton.

# Pwll Trap

Cydymdeimlwn â Diane a Tyrone Brown, Banc y Rhedyn, Heol Bethlehem ar farwolaeth tad Diane, sef Sammy Thomas, Brynderwen.

Bu farw mam Peter Jones, Haulfan, sef Enid Jones, Penybont. Cydymdeimlwn â Peter ac Iris a'r teulu ar eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd, â Jim a Mair Davies, Gorsfach, ar farwolaeth eu brawd-yng-nghyfraith, Dr Jeff Jones o Bontargothi.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd oedfa hyfryd yng nghwmni Mr Nigel Davies, Llangynin ar Ionawr 22ain a chafwyd oedfa bendithiol a chyfle i drafod o dan ofal Annalyn Davies ar Ionawr 29ain.

Ar fore braf, Chwefror 5ed cafwyd oedfa yng ngofal yr aelodau a gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Seiliwyd yr oedfa ar lyfrau cyntaf yr Hen Destament, llyfr Numeri yn benodol. Dysgwyd llawer am y llyfr a'n hysgogodd i fynd nôl i'w ddarllen. Diolch i Rhodri a Marian am baratoi'r oedfa, i bawb a gymerodd ran ac i Dai Rees wrth yr organ.

**Tŷ Croeso**

Bydd Cymdeithas Tŷ Croeso yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1af am 7 o'r gloch yn y Picton, Llanddowror. Os ydych yn dymuno mynd a wnewch chi roi'ch enw i Annalyn neu Marian os gwelwch yn dda.

Dydd Sadwrn, Mawrth 4ydd fe fydd dathliad Gŵyl Ddewi ym Methlehem Newydd o 2.30 tan 4.00 y.p.

Mae'r casgliad Banc Bwndel Babi Plant Dewi yn parhau, diolch am bob cyfraniad. Gwler y manylion yn y poster islaw.




# RHYDWILYM

Ar fore Sul, Chwefror 5fed braint oedd croesawu y Parch. Ken Thomas atom. Cawsom oedfa Gymun fendithiol iawn yn ei gwmni.

Cyn gweini y Cymun gwnaeth gydymdeimlo gyda phawb oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Hefyd dymunodd wellhad buan a llwyr i Huw Absalom. Cafodd Huw lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys ar ddechrau y Mis.

Gwnaeth Russell Evans groesawu, a diolch i Ken Thomas am ei wasanaeth. Hefyd estynnodd groeso i bawb oedd wedi dod o bell ac agos i'r oedfa.

arwyddion eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED IFAN LEWIS CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

**Oedfaon**
Mawrth. 5ed: 2.00 - Cymun - Annalyn Davies
19eg: 10.30 - Lyndon Lloyd
Ebrill. 9fed: 2.00 - Cymun - Parch. Euros Jones Evans
23ain: 10.30 - Arwel Evans

Unwaith yn rhagor gwnaeth y Cleddau Ddu ddifrod i ganllawiau'r bont ond erbyn hyn mae popeth yn ôl yn ei lle iawn.

# CWM MILES

Pob dymuniad da i'r trysorydd Geraint James, Coedllys, sydd wedi dioddef tipyn o afiechyd yn ddiweddar. Mae'r aelodau, cymdogion a ffrindiau yn dymuno y cei wellad buan.

# LOGIN

**Calfaria:** Oedfaon
Diolch o galon i Mr Hefin Wyn a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Mawrth. 5ed - Annalyn Davies Cymun am 10.30
19eg - Tom Evans - Cwrdd am 10.30
Ebrill. 9fed - Euros Jones Evans Cymun y Pasg am 10.30
23ain - Arwel Evans - Cwrdd am 2.00

**Sul y Beibl**
Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol Sul y Beibl yng nghapel Pisga, Llandysilio ar brynhawn Sul, Ionawr 15fed. Roedd yn hyfryd gweld cynulleidfa dda yn bresennol.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Eifion Griffiths, Felin Fach.
....hefyd i Sian Davies, Kings, cafodd ei llawdriniaeth ei ohirio oherwydd ei bod wedi dal Covid.

**Penblwydd hapus**
Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Sian Wills ar ei phenblwydd yn 50 oed ar Chwefror 2il ac i Beryl Thomas, Llandysilio (Rhiw gynt) ar ei phenblwydd yn 80 oed ar Chwefror 12fed.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mowr i Nigel a Glesni Vaughan, Glenig ar enedigaeth wyres fach arall, ganwyd merch fach o'r enw Maia Lois i Guto a Hanna ar Ionawr 24ain.

**Penblwydd Priodas Emrallt.**
Llongyfarchiadau mawr i Les a Val Owen, Llwynderw ar ddathlu eu Priodas Emrallt ar Chwefror 10fed. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Yr Adroddiad Blynyddol**
Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol yn ystod oedfa gymun mis Chwefror. Diolch i Faith ac Eurfyl am sicrhau fod yr adroddiad yn cael ei argraffu'n brydlon fel arfer.

**Rhaglen Cefn Gwlad**
Roedd hi'n hyfryd gweld Delyth Simons, ei gŵr Tim a'r merched sef Bethan a Marged ar raglen Cefn Gwlad ar nos Lun, Chwefror 6ed.

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Mae'r dosbarth Gwnïo/Crefft wedi ail ddechrau ar fore Sadwrn o 9.30 tan 11.30. Os oes diddordeb cysylltwch â Meinir Eynon.

Hyfryd oedd cael cynnal y cinio blynyddol am y tro cyntaf ers tair mlynedd. Hyfrytach byth oedd cael cwmni ein Cadeirydd Roy Llewellyn. Daeth dros chwedeg ynghyd i fwynhau pryd blasus yng Nghaffi Beca ar nos Wener, 3ydd Chwefror.

Croesawodd Roy bawb a brasluniodd y gwaith sydd wedi mynd yn ei flaen yn y tair mlynedd ddiwethaf.



Cyflwynodd dusw o flode hyfryd yr un i Beti James (trysorydd) a Meinir Eynon (ysgrifennydd) fel arwydd o werthfawrogiad am eu gwaith. Cafwyd tipyn o hwyl yn tynnu'r raffl a chymdeithasu.

Cynhelir cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 22ain Chwefror am 7.30 i drefnu rhaglen am y flwyddyn. Dewch i gefnogi'r Ganolfan.

Llongyfarchiadau i'r Cylch Meithrin am yr adroddiad arbennig yn dilyn yr arolwg diweddar.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth Cyflogau
Cadw Cyfrifon Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

## Cylch Meithrin Ffynnonwen

Cafwyd arolwg dda o'r Cylch Meithrin nôl ym mis Tachwedd. Gweler yr adroddiad ar wefan Meithrin.

Yn dechrau ar ôl hanner tymor (27ain Chwefror), bydd y Meithrin yn cynnig oriau ychwanegol ar brynhawn dydd Llun ac yn derbyn plant oedran 18 mis. Mae angen bwcio'r plant i fewn. Cysylltwch â Liz yr arweinydd.

# HENDYGWYN AR DAF

**Y Tabernacl**

Mae'r oedfaon yn parhau o Sul i Sul a chafwyd cyfle i wahodd ein cyn-weinidog y Parch. Llew Picton Jones yn ôl i bulpit y Tabernacl ar ddiwedd Ionawr.

Rydym yng nghanol cyfres o bregethau ar 'Y Deg Gorchymyn' ar hyn o bryd. Ac rydym yn defnyddio'r llyfr 'Y Deg Gorchymyn ac Ysgrifau Eraill' gan David Enoch fel sail i'r pregethau.

Hefyd mae'r grŵp trafod wedi dechrau ail gwrdd ar ôl y Nadolig ac yn cwrdd bob pythefnos ar zoom.

Anna Williams, Llandysilio oedd y wraig wadd yng Nghymdeithas y Tabernacl yr ystod mis Chwefror. Cafwyd anerchiad arbennig ganddi yn adrodd ei hanes yn trefnu Cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd y BBC a hynny am dros 30 mlynedd.



Anna Williams (ar y chwith) a wnaeth annerch Cymdeithas y Tabernacl yn ddiweddar. Ar y dde mae Margaret Titterton, Ysgrifenydd y Gymdeithas.



Cymdeithas y Tabernacl

Llongyfarchiadau i ddau annwyl iawn sef Haulwen ac Aeron Thomas a oedd yn dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr wrth pawb yn y Tabernacl.

O edrych ymlaen bydd ein hoedfa Gŵyl Ddewi ar ddydd Sul, Mawrth 5ed am 11.00 y bore.

Croeso cynnes i bawb i bob oedfa a hefyd i'r grŵp trafod. Cysylltwch gyda Meryl James ar 01994 240350 am fwy o fanylion.

**Nasareth**

### Teyrnged i Mair Mathias

Tristwch mawr i aelodau Nasareth oedd clywed am farwolaeth sydyn Mair Marhias, Heol y Gogledd, Hendygwyn. Colled fawr i'r eglwys. Gwraig alluog, ddiwylliedig oedd Mair, yn byw bywyd, a gwerthoedd gorau ei chrefydd yn sail iddo.

Bu yn aelod ffyddlon yn y capel ac yn ysgrifenyddes weithgar a chydwybodol am dri-deg un o flynyddoedd. Mae'n deg dweud ei bod yn "gweld ei gwaith" ac yn ei gyflawni'n gydwybodol a llwyddiannus, yn meddu ar arddull gynnes a chroesawgar, a phob amser yn fonheddig a chwrtais. Mynychodd yr oedfaon yn ffyddlon, a chefnogi holl weithgareddau'r eglwys. Roeddem fel aelodau yn ymddiried yn llwyr ynddi.

Roedd ei theulu yn bwysig iawn iddi, ac ymfalchiai yn llwyddiant ei phlant, ei hwyrion a'i hwyres. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda' i phlant a'u teuluoedd, a hiraethwn fel eglwys, ffrindiau a chymuned o golli un a oedd mor hoff gennym. Bydd yn chwith arnom hebddi.

*Buddug Jones*

## Hoelion Wyth – Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Estynnwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwadd, sef Dai Rees, yn wreiddiol o San Cler ond yn awr yn byw yn Sir Benfro. Dyma'r ail dro i Dai Rees ddod i siarad â ni, y tro cyntaf yng nghyfarfod Tachwed 2021 pryd bu'n rhoi ei hanes ar ôl iddo ymddeol o'i yrfa ddisglair gyda'r heddlu.

Tro yma, cawsom hanes ei yrfa gyda'r heddlu gan ganolbwyntio ar y ddwy flynedd a hanner bu'n rhan o'r tîm o pedwar ar ddeg, yn fechgyn a merched, a oedd yn ymchwilio i'r cynhyrchu a dosbarthu'r cyffur LSD yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac hefyd yn Ffrainc. Yr enw a roddwyd ar yr ymchwiliad hollol gyfrinachol yma oedd 'Operation Julie', sydd yn ran o hanes Cymru erbyn hyn. Roedd Dai wedi gweld effaith ofnadwy LSD â'i lygaid ei hun – pobl ifanc yn mynd yn wallgo ac un engraifft o hyn oedd pan laddwyd merch ifanc o Llanelli gan sipswn dan ddylanwad, fe yn meddwl mae anifail oedd hi!!

Cymerodd LSD drosodd fel y cyffur pleser a gwelwyd llawer yn gorfod mynd i ysbytai meddwl a gwelwyd llawer achos o hunan laddiad.

Yn 1976, penderfynwyd ceisio ymchwilio o ble oedd yr LSD yma'n dod, a dyma'r tîm a soniwyd am eisioes (a'i gynyddu i hanner cant yn ddiweddarach) yn mynd ati.
Wrth ddyfal barhad y tîm, dilyn pob trywydd a chadw llygad ar eiddo am gyfnodau hir yn ardal Tregaron, Carno a llawer lle arall yn y DU, llwyddwyd i arestio 127 o bobl a charcharwyd dros 120 ohonynt. Roedd y bobl oedd tu ôl i'r cyfan yn bobl alluog dros ben, un yn wyddonydd, un arall yn feddyg a'u carcharwyd am 15 mlynedd.

Ar ddiwedd y cyrch yma cafodd Dai ddyrchafiad fel Arolygwr yn gweithio yn Llanelli ac yn ddiweddarach ei sefydlu yn Brif Arolygwr yng nghanolbarth Cymru cyn iddo ymddeol ar ddiwedd gyrfa arbennig.

Yng ngeiriau'r siaradwr, roedd yn amhosib crynhoi gwaith dwy flynedd a hanner mewn i awr o gyflwyniad ond fe gawsom amser diddorol iawn yn ei gwmni gan ddysgu llawer mwy am 'Operation Julie'. Cyflwyniad arbennig a diolchwyd i Dai ar ran yr aelodau gan Trefor Evans.

Derbyniwyd cais drwy lythyr am gyfraniad ariannol wrth Bwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr a chytunwyd yn unfrydol i anfon £200.

## Cor Meibion Hendygwyn a'r Cylch

Mae aelodau'r côr yn dod o Faenclochog yn y gogledd, Hwlffordd ac Abergwaun yn y gorllewin, Sanclêr a Chaerfyrddin i'r dwyrain a Lacharn, yn y de. Mae oedran yr aelodau yn amrywio o 17 i 87 oed. Rydym i gyd yn rhannu angerdd a brwdfrydedd dros ganu mewn harmoni ac, ar yr un pryd, yn codi arian ar gyfer sefydliadau elusennol lleol.

Rydym yn ffodus iawn o'n tîm cerddorol - Hefina Jones, Cyfarwyddwr Cerdd, Owain Lewis, Cyfeilydd a Heather Jenkins Dirprwy Gyfeilydd. Rhyngddynt, a'n Cadeirydd Richard Lewis, llwyddwyd i lywio drwy'r unigedd Covid trwy ymarfer ar Zoom, yna gardd rhai o aelodau'r côr, garej bysus, a stondin cae rygbi. Buom yn ffodus i beidio â cholli unrhyw aelod, ac rydym yn dal i recriwtio aelodau newydd.

Mae cyngerdd yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar nos Wener, Mawrth 17eg am 7.30yh gyda'r unawdwyr Sioned Wyn Llewelyn ac aelod o'r côr, Owain Jenkins. Tocynnau yn £10 gan Haulwen Pridmore 07788 816980 neu Anna Williams 07850 713902. Yr elw yn mynd at Gymdeithas Neuadd a Cae Chwarae Llandysilio.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ein Cyngerdd Noddwyr yn Ysgol Dyffryn Taf ar ddydd Gwener 21ain Ebrill, felly cadwch y dyddiadau.



Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Ein hymweliad â'r siop goffi newydd yng Nghanolfan Hywel Dda yn Hendygwyn. Diolch o galon i Christine, Tracey a staff am y croeso cynnes. Mwynhaodd y plant eu byrbryd yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen at ymweliad arall yn y dyfodol agos. Pob lwc i chi gyd gyda'r fenter newydd.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk



## Ymweld â Fferm Bryngwyn



Trefnwyd taith i Fferm Bryngwyn yn ddiweddar. Roedd y plant yn gyffrous iawn i fynd ar fws i weld y defaid. Diolch o galon i Arwyn a Jane Thomas am roi'r cyfle i'r plant bach, roedd yn brofiad arbennig a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn

### Clwb 200 Cylch Meithrin Hywel Dda

Diolch enfawr i bawb sydd wedi cefnogi Clwb 200 Cylch Meithrin Hywel Dda eleni. Mae hwn wedi helpu codi arian hanfodol i'r elusen.

Hoffwn ni nawr gwahodd chi i adnewyddu eich aelodaeth os dymunwch chi (ar gyfer Ebrill 2023 ymlaen). Hefyd, mae yna gyfle i aelodau newydd brynu rhif(au) ac ymuno â'r Clwb 200.

Mae un rhif yn £1 y mis - £12 y flwyddyn. Rydyn ni'n tynnu'r raffl bob mis, gyda 3 gwobr. Gwobr ddwbl ym mis Rhagfyr, cyn y Nadolig!!

Aelodau: Os hoffech chi aros yn aelod, plis talwch mewn i gyfrif banc Clwb 200 (£12 pob rhif), gan ddefnyddio eich enw fel cyfeirnod. Danfonwch ebost i ni hefyd i ddweud eich bod chi wedi talu: cylchhyweldda@icloud.com

Enw'r cyfrif : Clwb Cylch Meithrin
Côd didoli : 56-00-42
Rhif y cyfrif : 37227696
Cyfeirnod : eich enw

Aelodau newydd: Danfonwch ebost i ni er mwyn cael ffurflen gais ac wedyn gwneud y taliad mewn i'r cyfrif banc uchod.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.
Nerys Evans (Trysorydd)

# BANCYFELIN

Capel Bancyfelin -
*Ymddiheuriad* - Dyma'r llun oedd fod yn rhifyn Ionawr.



Plant Ysgol Sul Bancyfelin yn mwynhau parti Nadolig.

Cwrdd Teulu



Cafwyd hwyl yn y Cwrdd Teulu ym mis Chwefror wrth i'r plant gystadlu mewn cwis yn erbyn yr oedolion wrth ddyfalu ystyr symbolau ar y sgrin! Y plant oedd yn fuddugol gydag un pwynt yn ychwanegol! Aeth ein gweinidog, Beti-Wyn ymlaen i sôn am rhai o'r symbolau Cristnogol cyfarwydd cyn troi at fwrdd y Cymun. Diolch i bawb a gymerodd rhan yn yr oedfa.

**Paned a Chacen**
Daeth criw niferus o aelodau Eglwysi Cana, Bancyfelin a'r Priordy ynghyd am baned a chacen yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg bnawn Sul, 29ain Ionawr. Dyma gyfle i gymdeithasu dros baned wedi wythnosau hir a thywyll y gaeaf. Yn osgytal â phaned cawsom wledd yn gwrando ar Peter Hughes Griffiths yn sôn am 'Fenywod yn fy mywyd'. Sgwrs ddifyr a doniol a bu'n fodd i godi calon pawb! Da oedd bod yno.

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk



Cymdeithasu yng ngwesty Llwyn Iorwg

**Gibeon**

Gyda thristwch mawr y clywodd y gynulleidfa yn oedfa Ionawr 15fed am farwolaeth Lynn Jones, Hafan Deg, (Talfan gynt) yn 75 oed wedi salwch byr. Roedd Lynn yn un o blant Gibeon ac fe wasanaethodd ei eglwys fel diacon ac fel trysorydd am gyfnod hir. Yn 1968 prynodd Lynn fferm Talfan gan ddatblygu'r fferm yn fusnes llewyrchus a llwyddiannus gyda'i briod, Ann, ac yn ddiweddarach gyda Kevin, y mab, ac erbyn hyn gyda Steffan, ei ŵyr hefyd. Roedd yn ffermwr wrth reddf ac er iddo ymddeol i Hafan Deg ers 2015 byddai yn Nhalfan yn helpu tan ei fisoedd olaf. Cynhaliwyd angladd breifat, yn amlosgfa Arberth, dan ofal ei Weinidog ar Ionawr 30ain. Cymerwyd rhan, hefyd, gan Beti-Wyn ac Annalyn o Gibeon yn ôl dymuniad Lynn. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Ann, y plant Kevin a Nerys, yr wyrion, Elen, Steffan, Lowri a Regan a'r teulu oll yn eu colled a'u galar.

Mae Emrys Morgan wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Da yw clywed ei fod ar wellhad.

Cafwyd Oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog ar Ionawr 15fed. Cyn gweini'r Cymun ymunodd plant yr Ysgol Sul ac fe gawsant gyfle i ganu un o'r caneuon roedden nhw wedi ei ddysgu gogyfer â'r oedfa Nadolig a ganslwyd oherwydd y tywydd rhewllyd. Yna cyflwynodd Iona yr anrhegion a adawyd gan Sion Corn i'r plant. Cafwyd oedfa fendithiol a da ein bod wedi bod yn medru dod at ein gilydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

## *Priodas Ddiemwnt*



Llongyfarchiadau i Dai a Morwen Thomas, 14 Bancyfelin a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Chwefror 9fed. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Diolch am wasanaeth Mrs. Annalyn Davies a'r Parchg Huw George ym mis Chwefror.

Mawrth 5ed: Dim oedfa gan fod y Parchg. Tom Defis yn methu dod oherwydd salwch.
Mawrth 12fed: Oedfa Gymun dan ofal Y Parchg Huw George - 2.00

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Meirwen Evans, Fron Uchaf, Llanboidy a'r teulu i gyd ar farwolaeth gŵr, tad a thadcu annwyl, sef Alun Evans a fu farw ddechrau Ionawr. Cynhaliwyd angladd breifat yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth.
....hefyd â Roy Reynolds a Llinos Thomas a'r teulu ar farwolaeth perthynas sef Dr Jeff Jones o Bontargothi. Gŵr annwyl Brenda (Eastgate, Llanboidy gynt).

**Gwellhad**

Dymunwn yn dda i Rhydian Isaac, Rhydyparc yn dilyn damwain car yn ddiweddar. Da deall ei fod ar wellhad.
....hefyd i Haulwen Lewis, Cefnypant House sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

**Penblwydd Hapus**

Penblwydd hapus yn 80 oed ar Chwefror 11eg i Haulwen Lewis, Cefnypant House, Cefnypant. Cyfarchion oddi wrth y teulu i gyd.

**Diolch**

Dymuna Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Ionawr 20fed.

# PENYBONT

## C.Ff.I. Penybont

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus i'r clwb ddiwedd Ionawr yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir.

Daeth tîm yr Adran Ddarllen yn 1af, sef Gwenan Morris, Tomos Morgans a Celyn Richards.
Cipiodd Celyn Richards yr unigolyn gorau a chael ei dewis i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

Daeth yr Adran Iau, sef Celyn Richards, Gwenan Morgans a Tomos Morgans yn 2il.

Yn yr Adran Ganol, daeth Steffan Richards a Caeo Pryce yn 3ydd, tra'n cystadlu mewn tîm swyddfa.

Ac yn yr Adran Hŷn, daeth Penybont Coch yn ail, sef Gwenllian Evans, Fiona Phillips ac Elen Jones, a Phenybont Du yn 3ydd sef Hannah Richards, Sioned Beynon a Teleri James.

Cipiodd Elen Jones yr unigolyn gorau, a bydd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

# EFAILWEN

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Ein gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr oedd Teifryn Williams, un o blant y Nobl, Efailwen sydd bellach yn byw yn Aberdaugleddau, Croesawyd ef gan Eifion Evans a chroesawyd hefyd dau aelod newydd i'r Hoelion, sef Hefin Wyn a Brian Thomas.

Ers yn ifanc iawn, mae Teifryn wedi mwynhau teithio a dilyn trywydd teithwyr arall.  Hanesion rhai o'i deithiau a'i brofiadau cawsom ganddo yn ei gyflwyniad hamddenol a direidus. Mae yn un sy'n cadw dyddiadur ac yn hoff iawn o ddefnyddio gwybodaeth o ddyddiaduron wrth grwydro.

Dechreuodd deithio yn ddyn ifanc, ar ei feic yn 1961, gan fanteisio ar aros mewn hosteli ar gyfer pobol ifanc. Ei gyllideb bryd hynny oedd 10 swllt y dydd. Ar ôl priodi a chael plant teithio mewn hen 'dormobile' bu'n gwneud a gwnaeth hyd yn oed fentro mor bell â Ffrainc. Roedd ei ffrindiau yn methu credu ei fod mor fentrus i wneud hyn mewn hen groc o beth. Roedd y peiriant yn torri lawr yn aml ond roedd Teifryn wastad yn dod i ben a'i drwsio!

Aeth i Brifysgol Aberystwyth fel myfyriwr aeddfed i astudio Sbaeneg - cyfnod oedd fod para 4 mlynedd, gyda blwyddyn yn Sbaen ond fe wnaeth ymestyn ei gyfnod yn Sbaen i ddwy flynedd. Erbyn diwedd y cyfnod roedd yn medru'r Sbaeneg yn o lew.  Tra yn Sbaen bu'n dilyn llwybr enwog y pererin i ddinas Santiago de Campostela, lle hanesyddol lle credir y claddwyd gweddillion yr apostol Iago. Hefyd yn ystod ei gyfnod yno, fe gyfarfu â merch ifanc a oedd yn wreiddiol o Batagonia. Fe wnaeth hi roi enw cyswllt iddo i'w ddefnyddio os bydde fe byth am fentro i'r Wladfa. Enw'r cyswllt oedd Gweneira Davies de González de Quevedo, un o dair o wragedd a gyfrannodd gan rannu cyfoeth diwylliannol y Wladfa at y gyfrol "Yr Etifeddiaeth Deg".

Yn 2008 glaniodd yn Buenos Aires, Ariannin ac wedyn teithiodd ar fws i Bariloche ger mynyddoedd yr Andes, gan dreulio ychydig amser yno, cyn mynd mlaen i Drelew yn Y Wladfa. Yno fe wnaeth gyfarfod â Gweneira a chael lle i aros gyda rhieni'r ferch a gyfarfu yn Sbaen flynyddoedd ynghynt.
Buodd am gyfnod yn dilyn crwydradau'r awdur a'r hanesydd Ambrose Bebb o gwmpas Llydaw a hynny ar feic gan aros mewn pabell.

Bu diddordeb mawr gyda fe yn hanes Joseph Jenkins, brodor a anwyd yn ardal Tregaron yn 1818. Gadawodd Joseph ei fferm a'i deulu pan yn 50 oed a mynd i grwydro Awstralia. Tra yno cadwodd ddyddiadur a gafodd ei addasu yn ddiweddarach i lyfr o'r enw 'The Diary of a Welsh Swagman'.  Fel Joseph, mae Teifryn hefyd wedi crwydro o gwmpas Awstralia ac yn bwriadu mynd yno eto cyn bo hir.
Cawsom noson yn llawn hwyl yn ei gwmni a diolchwyd iddo am y cyflwyniad gan Eifion. Diolch hefyd i Robert Caffi Beca am y croeso cynnes a'r cawl blasus.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH
**Crefftau Cymreig**
***Gemwaith Rhiannon***
***Crisial Brenhinol Cymru***
***Crefftau Lleol***
***Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau***
***Crymych, SA41 3QF***
***FFÔN: 01239 831230***

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Teifryn Williams yng nghwmni Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis.

## LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**

Daeth yr aelodau ynghyd i'r festri ar Ionawr 18fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb a chydymdeimlodd â Rose Saer ar ôl iddi golli ei brawd yng nghyfraith. Wedi canu emyn, croesawodd y gwestai, sef Vernon Beynon o Glunderwen. Bu'n siarad am hen gymeriadau ei fro â'i anerchiad yn llawn hiwmor. Diolchodd Dorothy Morris iddo. Cafwyd dished o de a bisgedi wedi eu paratoi gan Ivy Phillips a Mary Phillips.

**Penblwydd Hapus yn 90 oed**



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lyn Kendall ar ei phenblwydd yn 90 oed y mis hwn. Cyfarchion oddi wrth y gweinidog ac aelodau Trinity.

**Sefydliad y Merched**

Cyfarfu'r aelodau ar Ionawr 12fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Bu'r aelodau yn trafod cyfansoddiad i'w rhoi gerbron y mudiad cenedlaethol eleni. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer y rhaglen fydd yn dechrau o fis Mawrth, cyn cario ymlaen gyda gweithio blodau allan o beads o dan gyfarwyddyd Denise. Cafwyd te a chacen cyn mynd adref.

**Cydymdeimlwn**

Cydymdeimlwn â Hywel Thomas a'r teulu, Brynderwen ac hefyd Nigel a Julie, Maes-y-Bryn wedi i Hywel golli brawd a Nigel a Julie eu tad sef Sammy Thomas, Brynderwen, un oedd wedi rhoi ei amser i wasanaethu y gymdogaeth.

## TRELECH

**Penblwydd**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bethan, Rhos y Gawnen ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yng nghartref Myrtle Davies, a dangosodd ei sgiliau gwniadwaith gwych i ni. Dechreuodd wnio pan oedd yn 7 oed yn yr ysgol gynradd ac ymlaen wedyn i wneud Lefel A yn yr ysgol uwchradd ac wedi hynny, cael gradd dysgu ym Mhrifysgol Abertawe. Dangosodd y ffedog gyntaf a wnaeth ac yna'r ffrog fach ddu sydd mor glasurol, mae'n dal mewn ffasiwn heddiw. Yn olaf, dangosodd ei ffrog briodas i ni. Diolchodd Ceri yn gynnes iddi a chawsom luniaeth ar ôl y cyfarfod busnes.

## LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Lorna Harries, Park House, Llandysilio. Clunderwen. Gwraig gariadus i'r diweddar John Harries; mam Mandy, James a'r diweddar Jonathan; mam yng-nghyfraith, mamgu, a henfamgu a chwaer i Morgan a'r diweddar John a Doreen. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.


.....hefyd â Denise Davies a'r teulu, ar ôl colli ei modryb, sef Sarah Eirianwen Thomas (Anita) Glan Preseli, Llanddewi.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Glanville Davies, Awelfa, Llandysilio. Priod hoff y diweddar Merlys, tad a thad-yng-nghyfraith addfwyn Carol a Peter. Cydymdeimlwn a'r teulu oll.

**Dymuniadau da**

Pob Lwc i Rosecastle Joinery yn ei lleoliad newydd. Yno hefyd mae 'Ladd's Ironmongers'.






**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Dugmore (merch Andrew a Iris Dugmore) a Rob Mark, ar enedigaeth eu merch fach.

**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus i'r canlynol sydd yn dathlu penblwyddi arbennig.
Adrian Young yn 60 oed; Rachel Young, Heol y Llan, yn 50 oed; Sian Wills, Pwll Cware, yn 50 oed; Gethin Thomas yn 70 oed a Brenda Bowen, Blaen-dôl-Frwynog yn 90 oed.

**Cofiwch am y gyngerdd isod.**

Pisga Llandysilio
**CYNGERDD**
Nos Wener 17 Mawrth 2023 am 7.30yh
Yr elw at
Gymdeithas Cae Chwarae a Neuadd Llandysilio
**Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch**
**Hefina Jones**
Cyfarwyddwraig Cerddoriaeth, Cyfeilydd
**Owain Lewis**
Cyfeilydd
Unawdwyr
**Sioned Wyn Llewelyn**
(soprano)
**Owain Jenkins**
(bas)
Cyflwynydd a chyfranwr
**Siôn Jenkins**
**Tocynnau £10**
oddi wrth
Haulwen Pridmore
07788816980
Anna Williams
07850 713902
anna.williams2047@gmail.com

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**
**Clwb 100**

Nid yw'n rhy hwyr i ymuno â'r Clwb 100. Tâl o £10 am flwyddyn a siawns i ennill £15, £10 neu £5 pob mis. Mae pob cyfraniad yn help i gynnal Neuadd y Pentref. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â Haulwen Pridmore ar 07788 816980.

Dewch i ymuno â ni ar bwyllgor Neuadd Llandysilio. Rydym yn cyfarfod ar yr ail ddydd Llun o bob mis yn y Neuadd am 7.30. Mae croeso mawr ichi, a byddai'n braf eich gweld yno.

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Ym mis Ionawr, daeth Lowri Harries o Llandysilio, i siarad am ei busnes 'Neal's Yard', gan ddod ag amrywiaeth o'r cynnyrch organig i ddangos. Diolch iddi.

Mis Chwefror, aethom i weithdy 'Revelation' yn Arberth. Cwmni teuluol, sydd yn darparu gwisgoedd i nifer o ysgolion lleol, hefyd yn cyflenwi gwisgoedd a nwyddau i fusnesau.

CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO
Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY
Ar Agor: pob bore
9.00 yb - 12.00
Arweinydd: Liz Lewis
Rhif Ffôn: 07760135392
neu: cmllandysilio@outlook.com
Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716

Cylch Ti a Fi Llandysilio
I blant 0-4 oed a'i Rhieni/gwarchodwyr
Pob prynhawn Mercher
12.00 - 1.30yp
£2.50
Neuadd Llandysilio

# NEWYDDION BLAENCONIN

**CYMDEITHAS, CACEN a CHLONC**

**'Dilyn y Graen'**

Braf oedd cael cwmni'r Parchedig Geoffrey Eynon, Casblaidd yn traethu ar y Thema 'Dilyn y Graen'.

Mae Geoff wedi bod yn weinidog yn y Ford, Casblaidd am dros 40 mlynedd a bellach wedi cyhoeddi ei fod yn ymddeol yn yr haf. Diolch iddo am rannu ei brofiadau gyda ni ym Mlaenconin a phob dymuniad da iddo am iechyd, llawenydd ac ymddeoliad hir.

'Trwy gydol ei fywyd
bu'n ddiwyd a thaer,
Mae'n cadw ei Ffydd
ac mae'n cadw ei air ;
A phan ddaw Pedr
i agor ei lyfr
Fe wêl fod Geoffrey Eynon
wedi dilyn y graen.'



SIOP Y FRENNI
Crymych
Nisa
Siop a Gorsaf Betrol
Gwasanaeth rhagorol a phrisiau cystadleuol bob amser
Ffôn: 01239 832900

LAMO'S MOTORCYCLES

*Dyma'r lle i feicmodurwyr*
The Showroom
Llandissilio
Gwerthiant ▫ Gwasanaeth ▫ Atgyweirio
Ffôn / Ffacs: 01437 563678

Brian John
ROSE GARAGE
Cwmfelin Mynach
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn / Ffacs: 01994 448426
* Gwaith weldio o safon uchel
** Gwasanaeth ac atgyweirio ar bob math o gerbyd

**Cydymdeimlad**

Ar ddechrau'r flwyddyn bu farw John Saer, Llanelwedd, priod hoff Sheila. Roedd John a Sheila wedi byw yn Llanelwedd am flynyddoedd lawer. Cofiwn am Sheila a'r teulu yn ein gweddïau.

Daeth y newyddion am farwolaeth y brawd annwyl Gilbert Rees fel ergyd i'r Eglwys. Bu Gilbert yn aelod ffyddlon ym Mlaenconin, yn gefnogol i waith yr Eglwys ac yn barod, bob amser, i ddefnyddio ei ddoniau a'i ddwylo. Cofiwn am Lois, Richard ac Anthony a'u teuluoedd.

Bu farw un o gyfeillion yr Eglwys, sef y brawd Glanville Davies, Llandysilio. Bu Glanville a Merlys, ei briod annwyl, yn gefnogol iawn i oedfaon a chyfarfodydd Blaenconin. Un o'r cymeriadau annwyl hynny sydd wedi llonni ein bywydau.

Ac o fewn ychydig ddiwrnodau i'w gilydd bu farw 4 o weinidogion yr Enwad sef y Parchedigion:-

Keith Hodges; Roger Hart; Wynn Vittle ac Aled Jenkins

Roedd Wynn Vittle yn un o blant Harmoni, Pencaer ac Aled Jenkins a Roger Hart wedi bod yn gweinidogaethu yn y Sir. Cofiwn am eu gwaith yn enw'r deyrnas ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w teuluoedd.


## Y GYMANFA BWNC 2023

Mae tymor y Grawys eleni yn dechrau dydd Mercher 22ain Chwefror a'r cyfnod yn ein tywys yn feddylgar tuag at y Pasg a hynny yn ein hatgoffa fod eisiau dechrau paratoi llawlyfr y Gymanfa Bwnc.

Bydd yr Ysgol Sul yn dechrau ar 16eg Ebrill ac mae hynny'n golygu bydd eisiau dewis y bennod a'r anthemau a pharatoi ac argraffu'r llawlyfr mewn da bryd. Unwaith eto, gwahoddwn aelodau a chyfeillion yr Eglwys i ddewis pennod ac anthem/anthemau ar gyfer y Pwnc gan gyflwyno'i syniadau gerbron y gynulleidfa erbyn dydd Sul, 5ed Mawrth.

Diben a phwrpas y Gymanfa Bwnc yw rhoi cyfle i bawb i ddarllen, astudio a thrafod pennod o'r beibl gan rannu profiadau a sylwadau yn ystod y cyfnod rhwng y Pasg a'r Sulgwyn ac yn ystod y Gymanfa ei hunan.

## BORE COFFI RATIFA



Daeth y ffyddloniaid ynghyd ar yr ail Sul o Chwefror i gofio Ratifa.

Nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i ddod ynghyd ers tua tair blynedd ond mae nawdd ariannol yr Eglwys wedi parhau yn gyson o fis i fis. Dorothy a Hazel oedd yn gyfrifol am y lluniaeth –
diolch iddynt am y danteithion.

## Llongyfarchiadau

Mae Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Cystadleuaeth Adloniant y Mudiad a chafwyd perfformiad caboledig ganddynt yn Abergwaun. Mae'r Eglwys yn ymfalchïo ein bod yn medru bod o gymorth i'r bobol ifanc.

## TREFN OEDFAON

Dydd Sul, 5ed Mawrth - Oedfa bregeth am 10.30

Dydd Sul, 12fed Mawrth - BORE COFFI RATIFA am 10.00
Oedfa gymun - 1030

Dydd Sul, 19eg Mawrth - Oedfa bregeth am 10.30


Dydd Sul, 26ain Mawrth -
'CYMDEITHAS, CACEN a CHLONC' 15.00

## Cymdeithas y Beibl - Cylch Beca

| | |
|---|---|
| Bethesda, Llawhaden | £25 |
| Bethel, Mynachlog-ddu | £60 |
| Blaenconin | £25 |
| Calfaria, Login | £100 |
| Glandŵr | £25 |
| Hebron | £25 |
| Horeb | £20 |
| Nebo | £50 |
| Pisga, Llandysilio | £80 |
| Rhydwilym | £50 |
| Cefnypant | £25 |
| Casgliad o'r gwasanaeth | £111.50 |
| **Cyfanswm** | **£596.50** |

Cynhaliwyd gwasanaeth diddorol Cymdeithas y Beibl ar 15fed Ionawr 2023. Llinos Penfold oedd wedi paratoi'r gwasanaeth a'r Parchedig Eirian Wyn Lewis oedd y siaradwr gwadd ar ran Capel Glandwr. Diolch i'r capeli yng nghylch Beca am y cyfraniadau derbyniwyd yn ogystal â'r casgliad ar y dydd.

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

MASNACHWYR ADEILADU DAVIES
Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi ar agor

Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn:
01994 240228

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion
London House
Crymych
Ffôn: 01239 831978

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRO BRYNACH

**Santes Dwynwen**

Bu'r Ysgol yn dathlu diwrnod Santes Dwynwen drwy wisgo coch. Bu'r Pwyllgor Siarter Iaith yn brysur iawn yn croesawu rhieni a phlant wrth y drws yn y bore gan ddymuno 'Diwrnod Santes Dwynwen Hapus' i bawb. Aethon nhw hefyd ati i addurno bisgedi siap calon er mwyn creu stondin ar ddiwedd y dydd i werthu'r bisgedi i'r rhieni a ffrindiau'r Ysgol. Roedd yn gyfle da i ddatblygu eu sgiliau entrepreneraidd tra'n codi ymwybyddiaeth pawb am ein Nawdd Sant. Diolch i Mr Jonathon Balfour am goginio'r bisgedi.

**Taith yr Urdd**



Pleser oedd croesawu Mr Urdd a chriw yr Urdd i'r Ysgol i gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr. Cafodd y plant gyfle i ganu cân Mr Urdd yng nghwmni y dyn ei hun.

**Taith hanesyddol**




Aeth dosbarthiadau Gronw a Cynin ar daith hanesyddol o gwmpas y pentref i ymchwilio i hanes rhai o'r adeiladau hynafol. Bu Rodney o Siop y Pentref yn rhannu hanes yr hen siop 'Cloth Hall' a'r 'Ffatri Bop'. Roedd y gwaith yn rhan o waith thema'r plant sef 'Fy nghornel i o Gymru'.

**Prosiect 23**

Aeth criw o ddisgyblion Dosbarth Cynin draw i Ysgol Griffith Jones i gymryd rhan mewn clyweliadau ar gyfer cyflwyniad y plant yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr. Bydd pob un yn cael cymryd rhan yn y cyflwyniad yn seiliedig ar hanes Twm Sion Cati. Edrychwn ymlaen i weld y perfformiad yn yr Eisteddfod ym mis Mai.

**Ymwelwyr**

Hyfryd oedd croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn i gynnal gwasanaeth cyntaf y flwyddyn gyda ni. Cyflwynodd stori Ruth i'r plant.
Daeth PC Kath i ddosbarth Cynin i arwain sesiwn gyda'r plant ar Seibr Fwlio.

**Chwaraeon**

Llongyfarchiadau mawr i Mabli King a fu'n cymeryd rhan yng nghystadleuaeth Athletau Dan Do Cymru yng Nghaerdydd. Daeth yn chweched yn y ras 1500m. Gwych Mabli!

# YSGOL BECA

**Ymweliad Mr Urdd**

Yn ddiweddar, buodd ymwelydd pwysig yn Ysgol Beca. Daeth Mr Urdd i gyfarfod a'r disgyblion yn yr ysgol. Gyda'r Eisteddfod yn dod i'n Sir ni eleni, braf oedd gweld brwdfrydedd y disgyblion wrth drafod cynnal Eisteddfod leol. Diolch Mr Urdd!





**Cystadleuaeth Pêl-droed Cymysg yr Urdd**



Buodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i gymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Aethant i gaeau Ysgol Bro Gwaun i gystadlu fel tîm cymysg yn erbyn ysgolion y Sir. Chwaraeodd y disgyblion yn dda gan weithio fel tîm trwy gydol y dydd. Da iawn chi blant.

**Diwrnod diogelwch y rhyngrwyd**

Ar y 7fed o Chwefror roedd yn ddiwrnod diogelwch y rhyngrwyd. Diolch i'r Dewiniaid Digidol am gyflwyno yn ein gwasanaeth ac am atgoffa'r disgyblion i fod yn SMART wrth ddefnyddio'r we. O fewn ein dosbarthiadau buodd disgyblion yn trafod sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Aethant ati hefyd i ysgrifennu addewidion y byddant yn eu cadw wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol.

**Diwrnod mynegi dy hun**



Fel rhan o wythnos iechyd meddwl plant, ar ddydd Gwener y 10fed o Chwefror gwisgodd disgyblion Ysgol Beca ddillad a oedd yn cyfleu eu personoliaeth. Buodd nifer o ddisgyblion yn greadigol iawn a braf oedd gweld pawb yn mynegi eu hunain trwy eu gwisg.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Twose ar ddod yn fam-gu am y tro cyntaf. Mae'r teulu cyfan wedi gwirioni ar enedigaeth Bronwen. Llongyfarchiadau mawr i Billy a Betsan, mwynhewch bob eiliad.

**Dyddiadau pwysig**

Hoffwn rannu ambell ddyddiad pwysig oddi wrth Gymdeithas Rieni a Ffrindiau, Ysgol Beca. Ar y 24ain o Fawrth, byddwn yn cynnal Noson Bingo Pasg, yn dilyn llwyddiant ein noson bingo yn nhymor yr Hydref. Croeso i bawb!

Yr ail ddyddiad cyffrous yw'r 14eg o Orffennaf. Dyma ddiwrnod dathlu pen-blwydd yr ysgol yn 50. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein noson o ddathlu.

# YSGOL GRIFFITH JONES


**Kerbcraft**

Mae plant Blwyddyn 1 wedi dechrau ar eu hyfforddiant Kerbcraft y tymor hwn. Diolch i Elaine, Celine a Lisa sydd yn eu hyfforddi ar ddiogelwch y ffordd.

**Dathlu'r Hen Galan**

Bu nifer o ddosbarthiadau yn dysgu am ddathliad yr Hen Galan yng Nghymru. Crëwyd nifer o berllannau a gwelwyd sawl pen Mari Lwyd ar hyd y coridorau. Hyfryd oedd gweld a chlywed disgyblion Dosbarth Gwenllian yn mynd o gwmpas yr ysgol yn canu calennig.

**Taith Hyrwyddo Eisteddfod Sir Gaerfyrddin 2023**



Roeddem fel ysgol yn falch iawn i gael croesawu swyddogion yr Urdd a'r Eisteddfod ar fore Gwener, Ionawr yr 20fed i gychwyn y daith bwysig hon. Mwynhaodd y plant ganu a dawnsio gyda Mistar Urdd a chawsant gyfle i brynu nwyddau yr Eisteddfod.

**Santes Dwynwen**

Bu'r dosbarthiadau yn creu cardiau i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen ar gyfer cystadleuaeth gan Fenter Gorllewin Sir Gâr.

**Gŵyl Rygbi**

Aeth tîm rygbi cymysg yr ysgol i Barc y Sgarlets, Llanelli ar Ionawr y 26ain. Cawsant gwrdd â'r chwaraewyr a

Cochyn y mascot. Yna aethant i'r Sgubor i chwarae rygbi yn erbyn ysgolion eraill yr ardal. Cawsant ddiwrnod arbennig.

**Prosiect 23 yr Urdd**
Bu criw o aelodau'r Urdd o flynyddoedd 5 a 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy drama yn ddiweddar ar gyfer Eisteddfod Sir Gaerfyrddin. Cafwyd hwyl a sbri yn actio hanes Twm Siôn Cati. Bydd y disgyblion yn perfformio'r stori ar faes yr Eisteddfod ger Llanymddyfri ar ddechrau'r wythnos fawr. Mae disgyblion eraill wedi dangos diddordeb i fod yn rhan o'r côr ac maent eisoes wedi dechrau ymarfer ar brynhawn Sul yn Ysgol Bro Dinefwr. Pob hwyl i chi.

**Penwythnos Mawr Gwylio Adar yr Ardd**
Cymerodd Bl.5 Dosbarth Culhwch, a nifer o ddosbarthiadau'r ysgol, ran yn arolwg adar yr ardd yr RSPB ar ddiwedd mis Ionawr. Bu'r plant yn arsylwi pa adar oedd i'w gweld ar dir yr ysgol a'u cofnodi ar fas data. Bu dosbarthiadau Branwen, Olwen a Rhiannon yn brysur yn creu bwyd adar i'w hongian ar gampws yr ysgol.

**Côr yr Ysgol**



Bu côr yr ysgol yn perfformio mewn gwasanaeth Cristingl hyfryd yn Eglwys Sanclêr. Cafodd pob plentyn ac ambell oedolyn addurno Cristingl ei hun yn ystod y gwasanaeth.

**Diogelwch ar lein**
Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol fel rhan o Ddiwrnod eDdiogelwch ar Chwefror y 7fed. Bu'r plant yn creu posteri a gwrando ar storïau tra'n atgyfnerthu pwysigrwydd ymddygiad diogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Cwrs Beicio**



Bu disgyblion Bl.6 Mrs Thomas a Mr Toms yn cyflawni hyfforddiant beicio ar ddechrau'r mis. Cafodd y plant gyfle i ymarfer eu sgiliau o gwmpas heolydd Sanclêr.

**Ymwelwyr**
Croesawyd ficer newydd Sancler i'r ysgol ar Chwefror y 9fed i gynnal gwasanaeth gyda disgyblion Bl.3 – 6. Edrychwn ymlaen am ei ymweliad nesaf.

**Dydd Miwsig Cymru**
Ar Chwefror y 10fed bu'r ysgol yn dathlu 'Dydd Miwsig Cymru'. Cafwyd hwyl yn dawnsio yn sesiwn byw Tara Bandito a rannwyd gan Siarter Iaith Sir Gâr.

**Sain Ffagan**



Aeth dosbarthiadau Rhiannon ac Olwen i Sain Ffagan fel rhan o'u gwaith thema ar yr ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i brofi awr o ddiwrnod ysgol yn Oes Fictoria wrth ymweld ag Ysgol Maestir. Profiad arbennig a bythgofiadwy iddynt.

BFF
Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
- Bwyd anifeiliaid
- Ffensio
- Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GT TYRES
Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Premier
MAELFA
Siop y Pentref
Clunderwen
Nwyddau o bob math am brisiau cystadleuol
01437 563200

# YSGOL HAFODWENOG

**Mr Urdd**



Braf oedd croesawu Mr Urdd i'r ysgol yn diweddar

**Santes Dwynwen**



Bu disgyblion Cae Glas yn brysur ar ddiwrnod Santes Dwynwen yn creu Calonnau Cudd. Cafwyd gwasanaeth gan y Criw Cymraeg a phawb wedi cael pice ar y maen ac ysgytlaeth. Diwrnod prysur.

**Actif Unrhyw Le**




Mae disgyblion Rhos Fach wedi cychwyn ar ymuno mewn sesiynau ymarfer corff Actif Unrhyw Le ar foreuau Mercher a Gwener. Sesiynau hwylus dros ben.

**Cinio Cymuned**

Braf oedd croesawu aelodau'r gymuned i'r Cinio Cymuned yn yr ysgol. Bydd yr un nesaf ar y 1af o Fawrth ac un arall ar y 29ain o Fawrth. Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch gyda'r ysgol.



Bu'r disgyblion yn mwynhau yn sesiwn canolfannau cynnes yn neuadd y gymuned, yn chwarae gêmau âg unigolion y gymuned. Pawb yn edrych

# C.Ff.I. Sir Gâr

### Cystadleuaeth Adloniant Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr

Ar y 23ain a 24ain o Chwefror 2023, cynhelir cystadleuaeth Adloniant Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn Neuadd y Gwendraeth, Drefach. Ar nos Iau y 23ain bydd CFfI Llannon a CFfI Llanymddyfri yn perfformio trwy gyfrwng y Saesneg a mi fydd CFfI Dyffryn Cothi a CFfI Llanllwni yn perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ac i gloi yr adloniant ar nos Wener 24ain bydd CFfI Capel Iwan, CFfI Llangadog a ChFfI Capel-Arthne yn perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y ddwy noson yn dechrau am 7yh a phris mynediad bydd £6 i'r cyhoedd a £3 i'r aelodau. Hoffai Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ddiolch yn fawr i noddwyr y gystadleuaeth sef Shuffle bottom a Chyngor Sir Gâr.

# Cyngerdd Llyfrau Llafar Cymru



Cynhaliwyd cyngerdd gwych yn Neuadd Sant Pedr Caerfyrddin nôl ym mis Tachwedd, yng nghwmni Ifan Gruffydd, Tecwyn Ifan, Rhian Lewis, Pwdin Reis a Corau iau a hŷn Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Roedd y neuadd dan ei sang a chodwyd swm sylweddol tuag at elusen Llyfrau Llafar Cymru. Arweinydd y noson oedd Marc Griffiths - Marci G Radio Cymru.

## I GYFARCH D.E. PHILLIPS (DAI) AR ACHLYSUR EI BEN-BLWYDD YN 90 OED

Dymuna Dai Phillips, Crymych ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r arian a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed. Hefyd i Westy Nantyffin am y wledd.

Trosglwyddwyd rhan o'r arian a dderbyniodd i Feddygfa Taf ac Ymatebydd Cyntaf Crymych. Pleser ganddo yw rhannu'r penillion a ddarllenwyd gan Andrew James i'w longyfarch.

Ein braint ni yma heno yng Ngwesty Nantyffin,
Yw cyfarch dyn arbennig, neb llai na Dai ei hun.
Mae stori Dai yn dechrau, yn un naw tri deg tri,
Pan anwyd bachgen serchog i Emlyn a Maggie.

Daeth chwech o blant i'r Wyrfil ym mhentre bach Blaenwaun,
A bywyd oedd yn galed wrth geisio codi rhain.
Bu Dai yn mynd yn grwtyn i ysgol fach Glandwr
Le rhoddwyd iddo sylfaen – un gadarn rwyf yn siwr.

Pan ddaeth e i'w arddegau, ar fferm yr aeth fel gwas,
Bu yno am dros ddegawd, gan wneud ei orau glas.
Priodi wnaeth â Peggy, ac yna ymhen dim
Daeth tri o blant i'r aelwyd – sef Janet, Keith a Wyn.

Dechreuodd fel trydanwr trwy weithio gyda Glan,
Ac yna 'mhen tair blynedd, daeth cyfle gwych i'w ran.
Sefydlwyd Cwmni pwysig ym mil naw chwe deg tri,
A Thanybryn yn gartref i Gwmni DEP.

Yn araf bach fe dyfodd y Cwmni yn reit fawr –
Mae un deg chwech o weithwyr a siop yng Nghrmych nawr;
Cyflogi mae'r tri plentyn a phump o'i wyrion ef –
Sdim syndod bod na lewyrch, a'r fenter yn un gref.

Bu colli'r annwyl Peggy yn ergyd fawr i Dai
A chymorth ffrindiau'n bwysig wrth brofi cyfnod brau.
Daeth cwmni Dewi Tanglwst, a Gwynedd fu yn driw
A Dai Llanllwch ac Alan, Caermenyn oedd y criw.

Dydd Sul rhaid bod yn barchus, mae'n ddiacon ers tro,
Glandwr y Capel bychan sy'n bwysig yn y fro.
Bob amser mae'n cefnogi llu o achosion da
Trowch ato am gymwynas, boed aeaf neu bod ha'.

O fewn y byd trydanol, cwmniau oedd yn hael-
A Jim a Dai fu'n elwa ar bopeth oedd ar gael.
Mi fyddai'r chwisgi'n llifo a'r ddau ffrind wrth eu bodd,
A'r gobaith am drip arall, os byddai hwnnw'n rhodd !

Os y'ch yn un am deithio, mae'n rhaid wrth gerbyd mawr;
Bu Dai tu ôl i olwyn ei Volvo lawer awr.
Neu wedyn fe ddewisau ei BMW o'r Almaen bell,
Ond erbyn hyn mae'n honni bod Kia'n llawer gwell.

Yn gyson ar nos Sadwrn i'r Half Way yr aeth Dai,
A Jim yn chwarae 'Cupid' wrth ceisio uno'r ddau.
Bu Dai a Winnie'n caru dros ddeg ar hugain blwydd –
Yn amlwg d'oedd priodi, i rhain, ddim yn beth rhwydd.

Mae croeso 'Gwel y Frenni' bob amser yn un hael,
A chwmni dau mwy difyr sy'n anodd iawn i'w gael;
Ac os na fydd Dai adre, mi fydd â'i lygad craff
Yn sicrhau bod popeth yn Nhanybryn yn saff!

Pob iechyd i'r dyfodol, dymuna pob un ffrind
A datgan wnawn ni heno, mae'r "chief" yn dal i fynd.
Mwynhewch yr holl ddathliadau, parhewch yn ysgafn droed
Mae David Emrys Phillips yn awr yn naw deg oed! *E.P.*



Dai Phillips yn cyflwyno siec i Dr Byron McNeil o Feddygfa Taf.

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
Galwch mewn am y dewis gorau
Dilynwch ni ar Facebook

# Dathlu mewn steil!

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro




Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/03/23

**Dim enillydd yn anffodus i'r gystadleuaeth Anrheg Nadolig.**
Ateb: Y Cardi Bach oedd yr anrheg Nadolig gwerthfawr.

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓟ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

LYNDON GEORGE



ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER


**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol




**Pysgod - Sglodion - Risols**
**Selsig - Cyw Iâr - Diodydd**

Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30
Croeso i chi archebu ar y ffôn
01994 231482
Heol yr Orsaf,
San Clêr





Jones Login

Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill** | | |
| Llun 26 | **Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog** | 4 |
| **Mai** | | |
| Llun 15 | **Hyfrydwch Sir Lincoln** | 5 |
| Llun 22 | **Petalau, Pabi a Phorslen** | 5 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - The Commitments, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| **Mehefin** | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Spongebob, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Mer 21 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Mer 28 | **Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid** | 7 |
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| **Medi** | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** | 5 |
| Sad 21 | *Drama - Life of Pi, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Dyddiad i'w gadarnhau - | **Yr Alban - Ynysoedd Shetland** | 8-9 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul 5ed Mawrth 2023 | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES | £300 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Mawrth | Hwyl a Ssbri gyda CLIVE a'i Ffrindiau yn y CELTIC CAERNARFON | £220 | 3 Diwrnod |
| Gwener 17eg Mawrth | PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY | £300 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Mawrth | YNYS WYTH - SANDOWN - ISLE OF WIGHT | £410 | 5 Diwrnod |
| Llun 27ain Mawrth | BOURNEMOUTH - "NEW FOREST a BEAULIEU" | £375 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Ebrill | RHEILFFYRD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 14eg Ebrill | MOETHUSRWYDD GWESTY'r BELGRAVE SANDS TORQUAY | £330 | 4 Diwrnod |
| Sul 16eg Ebrill | ?????????? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ????????? | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 21ain Ebrill | PENWYTHNOS GYMREIG YN Y TYNEDALE LLANDUDNO | £405 | 4 Diwrnod |
| Gwener 28ain Ebrill | TAITH Y LLWYBRAU BLODAU EVESHAM | £285 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SBAEN - YSBLANDER CANTABRIA | £1,100 | 10 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SCARBOROUGH | £560 | 6 Diwrnod |
| Gwener 19eg Mai | HYFRYDWCH DARTMOOR ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £375 | 3 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | CRWYDRO'R ALBAN - YNYSOEDD LEWIS a SKYE HEBRIDEAN | £1,070 | 8 Diwrnod |
| Llun 5ed Mehefin | GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 7fed Mehefin | TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON | £1,275 | 11 Diwrnod |
| Gwener 16eg Mehefin | SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD" | £195 | 2 Ddiwrnod |
| Llun 19eg Mehefin | TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR | £485 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Mehefin | CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD | £365 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 24ain Mehefin | TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN | £1,150 | 8 Diwrnod |
| Mawrth 27ain Mehefin | LLANDUDNO YN YR HAF | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Gorff | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorff | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorff | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU | | |
| Iau 13eg Gorff | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Sul 16eg Gorff | SUFFOLK | £550 | 5 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorff | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorff | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain Awst | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 2ail Medi | LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hyd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hyd | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hyd | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tach | TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tach | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tach | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tach | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tach | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Coffi a Chlonc:**
Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

**Paned a Sgwrs:**
Mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno. I gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru.

**Sesiynau stori:**
Rydym yn cynnal sesiynau stori bob pythefnos mewn tair ardal sef Caerfyrddin ar ddydd Llun, yn Llyfrgell Caerfyrddin am 10:30am. Yn Maesycrugiau/Llanllwni ar ddydd Mawrth, yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni am 10:30am. Yn San Clêr ar ddydd Iau, yn Y Gât am 1:30pm. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda luned@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag betsan@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Clybiau Darllen:**
Mae clybiau darllen y Fenter sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom yn ôl. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar y trydydd nos Fawrth y mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda nia@mgsg.cymru | luned@mgsg.cymru

***NEWYDD* Yoga:**
Rydym yn cynnal 2 ddosbarth Yoga yng Nghaerfyrddin, ar ddydd Mercher o 1.15-2.15pm yn Llyfrgell Caerfyrddin ac ar ddydd Iau o 7-8pm yn Yr Atom, Caerfyrddin. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru.

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

## MENTRAU IAITH CYMRU A PYST YN LANSIO CYLCHDAITH GIGS NEWYDD

Mae Mentrau Iaith Cymru a PYST wedi cyhoeddi eu bod am gydweithio i lansio a datblygu cylchdaith gigs newydd ar gyfer artistiaid Cymraeg. Bydd y daith gyntaf yn digwydd yn y Gwanwyn.

Nôd y gylchdaith yw cynnig cyfleon i artistiaid deithio Cymru gyda'r pwyslais ar ymweld â mannau lle nad ydynt yn chwarae yn aml, os o gwbwl. Cefnogir y gylchdaith hefyd gan gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n helpu cannoedd o neuaddau pentref a grwpiau cymunedol ledled Cymru i archebu sioeau proffesiynol.

Y bwriad yw y bydd o leiaf 4 taith y flwyddyn yn digwydd gyda chanolfannau ac ardaloedd yn amrywio o daith i daith. Bydd PYST yn gyfrifol am hyrwyddo cenedlaethol a chydlynu tra bydd y Mentrau Iaith yn gyfrifol am hyrwyddo lleol a chynnal y gigs. Mae'n bartneriaeth sydd yn manteisio ar gryfderau ac adnoddau y ddau sefydliad.

Dywedodd Heledd ap Gwynfor ar ran MIC "Mae'r Mentrau Iaith yn gyfarwydd â threfnu cyngherddau a gigs amrywiol ym mhob rhan o Gymru, ond wedi gweld y cyfnod diweddar yn un heriol iawn am resymau amlwg. Mae gallu cydweithio rhwng y Mentrau a gyda PYST yn golygu gallu cynnig cyfleon cyffrous i gynulleidfaoedd Cymru unwaith yn rhagor iddynt fwynhau cerddoriaeth Gymraeg ar ei orau."







Dywedodd Alun Llwyd ar ran PYST "Mae'r gylchdaith yma yn rywbeth y mae mawr ei angen ac yn cynnig nid yn unig adnodd gwerthfawr i artistiaid a labeli wrth hyrwyddo recordiau, ond yn gam pwysig î sicrhau bod cerddoriaeth a'r iaith Gymraeg yn cael ei fwynhau yn gyson gan gynulleidfa ehangach, a hynny o fewn eu hardal leol. Edrychwn ymlaen i weld y gylchdaith yn datblygu."

Yn lansio y gylchdaith bydd y band o Gaerdydd, HMS Morris gyda chefnogaeth gan Hyll, Mali Hâf, Elis Derby a Bitw ar wahanol rannau o'r daith. Manylion y daith:

EBRILL
6ed - Yr Atom, Caerfyrddin (+ Mali Hâf)
7fed- Canolfan Hermon, Crymych (+ Mali Hâf)
8fed - Y Selar, Aberteifi (+ Mali Hâf)

## Menter Gorllewin Sir Gâr yn ymuno â phrosiect LocalMotion Caerfyrddin.

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn falch o fod yn rhan o fenter newydd cyffrous sef LocalMotion. Amcan LocalMotion sydd yn gweithio mewn chwe lle yn unig yng Nghymru a Lloegr, gyda Caerfyrddin wedi ei dewis i fod yn un ohonynt, yw adeiladu mudiad cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i fynd at wraidd heriau cyffredin.

Nôd LocalMotion Caerfyrddin yw i greu'r dre hapusaf a mwyaf llewyrchus yng Nghymru, lle mae creadigrwydd a diwylliant wrth galon y broses o wella llesiant pobl a darparu economi fwy teg a chynhwysol i bawb – gan gynnwys creu'r sgiliau y gall y dref eu defnyddio i lunio a dod a phobl ynghyd i wneud y defnydd gorau o'i hasedau treftadaeth a diwylliannol niferus.

Dywedodd Maer Caerfyrddin y Cynghorydd Miriam Moules,

"Mae Caerfyrddin, tref hynaf Cymru yn falch o fod wedi cael ei dewis fel un o chwe lleoliad yn y Deyrnas Unedig, a'r unig le yng Nghymru i fod yn rhan o LocalMotion. Rydym am ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol, gwneud Caerfyrddin y lle hapusaf yng Nghymru, a chyflawni prosiectau a arweinir gan y gymuned i bawb. Mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r dref, ac edrychwn ymlaen yn fawr at wrando ar bobl leol er mwyn siapio dyfodol Caerfyrddin."

Sefydlwyd grŵp craidd i lywio gweithgaredd Localmotion Caerfyrddin sy'n cynnwys CAVS, Oriel Myrddin, Menter Gorllewin Sir Gâr, Drindod Dewi Sant, Yr Egin, BID Caerfyrddin, Cyngor Tref Caerfyrddin, Cyngor Sir Gâr, Antur Teifi, Carmarthenshire People First, Away Days, West Wales Action for Mental Health. Mi fydd yn dda clywed gan bobl sydd â diddordeb i gynorthwyo cyflawni'r amcanion yn enwedig rheiny sydd â phrofiad bywyd o'r heriau cymdeithasol mae LocalMotion yn dymuno newid.

"Datblygodd LocalMotion o ddymuniad a rennir gan chwe chyllidwr yn y DU i adeiladu mudiad a allai ysbrydoli ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyffredin y mae cymunedau'n eu hwynebu, fel y gallant ffynnu a ffynnu.

Prif nod y prosiect yw annog llais plant a phobol ifanc i greu ymdeimlad o falchder yn nhref Caerfyrddin gyda'r bwriad o annog pobl ifanc i aros neu dychwelyd i gyfoethogi Caerfyrddin gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymuned Caerfyrddin fel eu lle hapus.

Dywedodd Alma Roberts, Cydlynydd Prosiect 'Caru Caerfyrddin' sydd wedi bod wrthi'n cynllunio'r prosiect:

"Rwy'n gyffrous iawn i weithio ar y prosiect hwn. Bydd yn gyfle gwych i blant a phobl ifanc Caerfyrddin i ddweud eu barn a chyfleu eu syniadau ar gyfer cynlluniau i wneud Caerfyrddin y lle hapusaf a mwyaf llewyrchus i fyw. Bydd yn fraint i gael cydweithio gyda'r ysgolion, y colegau, partneriaid a sefydliadau lleol wrth gasglu eu syniadau. Gobeithiwn y bydd yr adborth a gesglir yn seiliau cadarn ar gyfer cynllunio'r dyfodol."

Bydd LocalMotion Caerfyrddin yn ysbrydoli ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyffredin y mae cymunedau'n eu hwynebu, er mwyn iddynt allu ffynnu a bod yn llwyddiannus, ac i weithio gyda phobl Caerfyrddin i lunio'r dyfodol.



PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

**DERI PAGE**
**CIGYDD**

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**RUSSELL THOMAS**
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# PENBLWYDD HAPUS




Penblwydd Hapus i Cerys a oedd yn 8 oed ar Chwefror 5ed a Tomi a oedd yn 6 oed ar Chwefror 21ain. Mae'r ddau yn byw yn Adelaide, Awstralia. Llawer o gariad oddi wrth Mamgu (Doreen Thomas, Pwll Trap), Wncwl Alun, Dadcu a Mamgu Dre (Derek ac Elonwy Cleaver) ac Auntie Steph, Wncwl Paul a Joshua, San Cler.




Penblwydd Hapus i Daniel James o Benybont yr Ogwr sydd yn 5 oed ar Chwefror 27ain a'i chwaer, Harriet, a fydd yn 2 oed ar Fawrth 19eg. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain, (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.

PENBLWYDD HAPUS!

*parhad o dudalen 35*



Dafydd Jones, un o'r sgorwyr yn erbyn Crannog.



Paul Williams a Dafydd Makepeace yr hyfforddwyr mewn trafodaeth.

Mae'r Clwb yn edrych ymlaen at weddill tymor 2022-2023.
Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ymarferion – http://www.ceredigionleague.co.uk/ neu cyfryngau cymdeithasol y Clwb.

*Rhodri Lewis*

GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
01994 240 366
@GBAssociates1

**Emrys ac Ann Murrow**
**Motel Nantyffin**
**Llandissilio**
Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau
Croeso cwrtais bob amser
Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!



**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Menywod**
Mae tîm y menywod heb chwarae yr un gêm ers tri mis bellach, ond gobeitho byddant yn chwarae yn erbyn Llandaf ar Chwefror 12fed.

**Dynion**
***Ionawr 14eg*** - Hendy Gwyn 15 Felinfoel 32. Roedd y sgor yn gyfartal 15 - 15 ar hanner amser ond rhoddodd Felinfoel y "booster" ymlaen yn yr ail hanner i ennill y gêm yn gyfforddus. Sgoriwyd ceisiau Hendy Gwyn gan Gino Setaro a Harry Fuller a llwyddodd Gino gyda un trosiad ac un cic gosb.

***Ionawr 21ain*** - Tregwyr v Hendy Gwyn. Bu rhaid i'r bws droi am nol ar y ffordd i Dregwyr oherwydd y tywydd rhewllyd, byddwn yn ail drefnu'r gêm cyn diwedd y tymor.

***Ionawr 28ain*** - Hendy Gwyn 47 Penfro 15. Roedd y gêm hyn hefyd yn gyfartal 15 - 15 ar hanner amser. Gwnaeth Penfro ddim ildio ond gwnaethom chwarae rygbi da yn yr ail hanner i ennill y gêm yn rhwydd. Sgoriwyd 7 cais (gan gynnwys cais gosb) gan James Thomas, Tom Windsor, Jack Mason, William Jones, Ianto Davies a Liam Price. Llwyddodd Stuart Morris gyda 5 trosiad.

***Merched dan 18***
Mae tair o ferched dan 18 yng ngharfan dan 18 y Scarlets - llongyfarchiadau i Lowri Pritchard, Carys Hughes a Mabli Evans.

**Ieuenctid**
Mae'r tîm ieuenctid wedi chwarae tair gêm yn ystod yr wythnosau diwethaf.

***Ionawr 14eg*** - Hendy Gwyn 14 Dinbych y Pysgod 22. Sgoriwyd cais yr un gan Lewis Jones a Tom Monk a llwyddodd Lennon Reynolds i drosi'r ddau gais.

***28ain*** - Aberystwyth 39 Hendy Gwyn 12. Sgoriwyd cais yr un gan Oli Bujega ac Ethan Page a llwyddod Lennon Reynolds gydag un trosiad.

***Chwefror 3ydd*** - Hwlffordd 34 Hendy Gwyn 22. Sgoriwyd cais yr un gan Jack Worthing, Ethan Ryan, Jake Williams a Tyler Reynolds a llwyddodd Lennon Reynolds i drosi un o'r ceisiau.



Rhes gefn - Mabli Evans, Megan Cole, Carys Hughes, Isla Craig, Catrin Lewis, Lowri Pritchard, Ela Harries, Jazmine Jones
Rhes flaen - Lona Harding Jones, Maria Jones

*Suzanne Davies*

# Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tîm 1af**
Ers y Nadolig mae tîm cyntaf Llanboidy wedi chwarae 4 gêm gan ennill 2 a cholli 2.

Ar ddechrau mis Ionawr, chwaraewyd oddi cartref yn Llangrannog yn erbyn Crannog. Canlyniad siomedig gan golli 2-0. Er hyn, yr wythnos ganlynol fe wnaethom fownsio nôl gan guro Llandudoch, sef cyn pencampwyr y gynghrair o 4-1. Cafwyd goliau gan Dafydd Jones, Nick Jones, Ifan Jones a Gethin Scourfield.



Dathlu gôl wych gan Ryan Pearce yn erbyn Crannog

Chwaraewyd yn erbyn Llandudoch eto'r wythnos ganlynol yng nghwpan Coffa Dai Dynamo. Yn anffodus, colli o 4-2 oedd hanes y tîm, ond er hyn cafwyd perfformiad da iawn o ystyried mai ond 11 chwaraewr oedd gyda ni, gyda Dafydd Makepeace yr hyfforddwr yn dod allan o ymddeoliad i chwarae 90 munud. Gethin Scourfield sgoriodd y ddwy gôl.

Ar ôl canlyniad siomedig yn erbyn Crannog ar ddechrau Ionawr, fe wnaethom yn siŵr ein bod yn rhoi perfformiad gwell i mewn y tro hyn yn ei erbyn, ac fe wnaethom ennill o 5-1 gyda goliau gan Gethin Scourfield (2) , Dafydd Jones, Ryan Pearce a Nick Jones.
Edrychwn ymlaen tuag at yr wythnosau nesaf.

**2il dîm**
Dim ond dwy gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae ers y Nadolig, a hynny yn erbyn Crymych a Llechryd. Yn anffodus colli'r ddwy gêm bu hanes y tîm, ond serch hynny'r ddau dîm yma sydd ar frig y gynghrair.

Colli 5-1 yn erbyn Crymych gyda William Abbott yn sgorio'r unig gôl, ac yna colli 4-0 yn erbyn Llechryd.

*parhad ar dudalen 34*



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Cler



Roedd gan y tîm cyntaf fis prysur wedi'i drefnu ym mis Ionawr ac yn dilyn ein buddugoliaeth o 6 - 64 oddi cartref yn Llangwm fe groesawom ni Hwlffordd i Barc Griffith Jones San Clêr ar Ionawr 14eg. Roedd disgwyl gêm galed ac fe brofodd hyn i fod yn wir. Er hynny, bu'r bechgyn yn cloddio'n ddwfn a chafwyd buddugoliaeth haeddianol o 22 - 5 gyda cheisiau gan Gareth Jones, Jac Howells a Liam Rogers. Parhaodd Dan Griffiths gyda'i gicio cywir wrth drosi'r tri chais.

Yr wythnos ganlynol ar Ionawr 21ain, buom yn ymweld â'n cymdogion Talacharn yn rownd 16 olaf Cwpan Adran 3 Undeb Rygbi Cymru, ond gwnaeth y dyfarnwr alw'r gêm i ffwrdd oherwydd cae rhewllyd, tua 15 munud cyn y gic gyntaf. O ganlyniad, cymerodd y gêm hon flaenoriaeth dros ein gêm gartref yn y gynghrair yn erbyn Neyland a mentrom y daith fer eto i chwarae'r gêm ddisgwyliedig hon ar Ionawr 28ain. Gêm ddarbi lleol nodweddiadol gyda'r naill ochr na'r llall yn rhoi modfedd, ond enillon ni'r gêm yn y pen draw wrth i'r Seintiau ennill goruchafiaeth yn y sgrym a Thalacharn yn diystyru'r llinell. Roedd amheuaeth bob amser am y sgôr yn y pen draw, er i San Clêr ychwanegu at y cais hanner agoriadol, gyda thri chais arall yn y chwarter diwethaf i ennill y gêm o 13 -24. Hatric penigamp i'n capten Jac Howells ac un cais i Dafydd Waters hefyd i selio'r fuddugoliaeth. Gwnaeth Dan Griffiths lwyddo gyda dau drosiad. Sgoriwyd cais Talacharn gan Nico Setaro, a troswyd hi gan James Stephenson, wnaeth hefyd lwyddo gyda dwy gic gosb.

Gyda'r 6 Gwlad a rhai gemau wedi eu hail-drefnu oherwydd y cwpan, ein gêm nesaf erbyn hyn yw adref yn erbyn yr Wyddgrug yn rownd 8 olaf Cwpan Adran 3 URC ar Chwefror 18fed pan fyddwn yn croesawu'r ymwelwyr o Ogledd Cymru. Gwrthwynebwyr na wyddom fawr ddim amdanynt, er y byddwn yn mynd i mewn i'r gêm yn hyderus gyda'n rhediad o fuddugoliaethau nawr yn ymestyn i 21 gêm. Does gen i ddim amheuaeth y bydd y bechgyn yn barod ar gyfer y gêm  hon ac mae unrhyw beth yn bosib wedi hynny, gan y bydd yr enillydd yn symud ymlaen i'r rownd gyn derfynol.

Oherwydd gemau'r 6 Gwlad, ein gêm gartref nesaf sydd wedi'i threfnu, yw yn erbyn Tregaron ar Mawrth 4ydd. Wedi hynny, bydd cyfnod prysur gyda nifer o gemau i ddal i fyny arnynt oherwydd aflonyddwch y cwpan a'r tywydd ac fel carfan, bydd angen i ni fod yn barod am rai heriau anodd am weddill y tymor.

Cafodd y tîm datblygu gêm gartref yn erbyn Derwyddon Caerfyrddin ar Ionawr 28ain, gan golli'n drwm. Bydd ei gêm nesaf adref yn erbyn Llangennech, i'w chwarae yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae ein timau mini ac iau yn chwarae bob dydd Sul ac yn ôl yr arfer, mae'n wych gweld torfeydd da ym Mharc Griffith Jones yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o chwarae wyr. *Gwyndaf Williams*







*Lluniau Chris Rees*